



**Prosbectws Ysgol
Plas Coch**

YSGOL PLAS COCH

Gair o groeso gan y Pennaeth

Annwyl Rieni a Gwarchodwyr

Rwy'n estyn croeso cynnes i chi a'ch plentyn i Ysgol Plas Coch ac yn edrych ymlaen at gysylltiadau hapus ac effeithlon dros y blynyddoedd i ddod.

Bwriad y llawlyfr hwn yw cyflwyno'r ysgol i chi, gan ddarparu gwybodaeth am ein hamcanion, gweinyddiaeth a threfniant cyffredinol. Dylai'r llawlyfr ateb unrhyw gwestiynau uniongyrchol a chynnig manylion defnyddiol a ddylai fod o gymorth drwy gydol y flwyddyn academaidd.

Credwn ei bod yn bwysig bod pob rhiant / gwarcheidwad yn cael y teimlad o groeso o fewn yr ysgol. Mae addysg yn bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol drwy rannu cyfrifoldebau sy'n seiliedig ar ymddiriedolaeth a dealltwriaeth. Rydym yn annog cydweithrediad a chyfranogiad y rhieni gyda'r ysgol yn y broses o addysgu eu plentyn. Mae cydweithrediad da rhwng yr ysgol a'r cartref yn hybu hyder plentyn, yn cynorthwyo eu dysgu ac o gymorth iddynt gyflawni eu llawn botensial ym mhob maes.

Mae hon yn ysgol hapus lle mae pob plentyn yn cael cyfle i ddysgu mewn awyrgylch ofalgar a chyffrous. Rydym yn amcanu i roi'r cyfle i bob plentyn i ddatblygu'n unigolyn gorffenedig.

Mae'r croeso i chi a'ch plentyn yn un cynnes a chyfredol ac estynnwn wahoddiad i chi fel rhieni i'n cefnogi yn y broses addysgol. Rydym yn gweithredu polisi "drws agored" drwy'r hwn y gallwch gamu mewn ar unrhyw adeg. Rydym yn croesawu unrhyw arbenigedd neu gymorth y gellwch ei gynnig i'n cynorthwyo i drosglwyddo'r cyfleoedd gorau posib i'n disgyblion.

Rwyf bob amser yn barod i drafod gyda rhieni ar unrhyw amser cyfleus i bawb.

Yn gywir,

Osian Jones
Pennaeth

Gair o groeso gan gadeirydd y llywodraethwyr

Ar ran y Corff Llywodraethol hoffwn ailadrodd croeso'r Pennaeth i rieni newydd a diolch i'r rhieni presennol am eu cefnogaeth barhaol. Rwy'n sicr y bydd y llyfryn hwn o ddefnydd i chwi nid yn unig nawr ond hefyd fel ac y mae'r flwyddyn yn symud ymlaen.

Rydym yn ymfalchïo yn Ysgol Plas Coch. Mae'r staff yn weithwyr proffesiynol gofalgar a llawn cymhellant ym mhob agwedd o addysgu ac o dan arweiniad ein Pennaeth, Osian Jones, rwy'n gwbl hyderus y bydd ein plant yn cael y cymorth maent ei angen i gyrraedd eu llawn botensial, waeth beth fo'i gallu.

Mae'r Corff Llywodraethwyr yn cynnig cefnogaeth weithredol i'r Pennaeth a'r staff i gyflawni nod ac amcanion yr ysgol wrth annog gwelliant mewn safonau ar draws y cwricwlwm yn barhaol. Fel Llywodraethwyr mae ganddom ddyletswyddau penodol a byddwn yn ymwelwyr mynych i'r ysgol.

Mae addysg ein plant yn garreg sylfaen angenrheidiol i weddill eu bywyd. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu'r safon uchaf posib o addysg mewn awyrgylch ddiogel a gofalgar o fewn yr un y byddant yn derbyn addysg drwyadl a diddorol drwy gydol eu blynyddoedd ffurfiannol.

Rydym yn edrych ymlaen at gyflawni hyn gyda'ch cymorth a'ch cefnogaeth chwi.

Yn gywir,

Andrew Parry

Cadeirydd Corff Llywodraethol Ffederasiwn Ysgolion Plas Coch a Bro Alun

Ein Gweledigaeth, Nôd ac Amcanion ym Mhlas Coch

Ein gweledigaeth ym Mhlas Coch yw darparu ysgol sy'n datblygu hunan hyder a hunan ddisgyblaeth y disgyblion mewn awyrgylch ofalgar, cynhaliol, hapus a diogel. Rydym yn ymrwymedig i fynnu'r safonau uchaf posib gyda pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial. Yn greiddiol i hyn mae'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.

Ym Mhlas Coch rydym yn ymrwymedig i ddarparu addysg gyflawn o safon uchel er mwyn creu pobl ifanc cyflawn, gwydn a medrus fydd yn barod i wynebu'r byd a'i heriau yn hyderus a phositif. Bydd y disgyblion yn cael cyfleoedd i gyfranogi'n llawn yn eu dysgu er mwyn medru cyfrannu i fywyd yn y gymdeithas leol a'r byd ehangach.

Cyffredinol.

Darparu amgylchedd (ar gyfer disgyblion a staff) sy'n gwerthfawrogi pob unigolyn ac sy'n tanlinellu pwysigrwydd cyfanrwydd ac ansawdd bywyd.

Academaidd

Sicrhau addysg gyflawn i bob plentyn o fewn cwricwlwm cytbwys, eang a gwahaniaethol. Sicrhau bod cyfle i bob plentyn ddatblygu fel unigolyn gan osod disgwyliadau'n uchel fel bod pob unigolyn yn cyrraedd ei lawn botensial.

Iechyd a Lles

Sicrhau fod pob disgybl yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol gan gynnig cymorth i unrhyw ddisgybl sydd ei angen.

Personol / Bugeiliol

Datblygu gwerthoedd moesol a chymdeithasol y disgyblion.

Cymdeithasol

Sicrhau darpariaeth addysgol berthnasol i brofiad y disgyblion yn y gymdeithas a'r gymuned leol.

Ieithyddol

Cynorthwyo'r disgyblion i fod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg h.y. i allu sgwrsio'n rhugl a naturiol yn y ddwy iaith, darllen dwy iaith a mynegi eu hunain yn ysgrifenedig hyd eithaf eu gallu yn y ddwy iaith.

Diwylliannol

Darparu cyfleoedd i feithrin a chymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Disgrifiad o'r Ysgol

Mae Ysgol Plas Coch wedi'i lleoli ar wastatir eang ar ochr ogledd dwyreiniol tref Wrecsam. Agorwyd yr ysgol yn Ionawr 1993. Cafodd ei sefydlu i gyfarfod â'r twf enfawr yn nifer rhieni'r ardal a ddymunai addysg gyfrwng Cymraeg i'w plant. Mae dalgylch yr ysgol yn eang yn ddaearyddol ac yn amrywio'n helaeth o ran nodweddion cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r ysgol wedi ei lleoli ger parc siopa Plas Coch gyda mynediad i'r ysgol ar Ffordd Stansty tua 500m i'r dwyrain o brif fynedfa'r parc siopa. Mae prif fynedfa'r ysgol gyferbyn a'r llwybr troed sy'n arwain o Ffordd Stansty. Y fynedfa i'r Dosbarth Meithrin yw'r un gyda chanopi.

Mae drws y brif fynedfa ar agor ond rhaid canu'r gloch ger yr ail ddrws ac mae rhaid i bob ymwelydd gysylltu ag ystafell yr ysgrifenyddes sydd wedi ei lleoli o fewn y brif fynedfa.

Ym Medi 2013, agorwyd ysgol gyfrwng Gymraeg newydd sbon ym mhentref Gwersyllt, Ysgol Bro Alun mewn ymateb i'r galw am addysg Gymraeg yn yr ardal a mewn ymgais i leihau'r niferoedd ym Mhlas Coch. **Ffurfiwyd ffederasiwn rhwng Plas Coch a Bro Alun gydag un corff llywodraethol ac un pennaeth yn rhedeg y ddwy ysgol.**

Adeiladwyd Plas Coch yn wreiddiol ar gyfer 240 disgybl oedd yn cynnwys 30 o ddisgyblion meithrin rhan amser. Oherwydd y galw am addysg Gymraeg yn Wrecsam, cytunwyd i dderbyn 60 o blant o 2008 ymlaen tan bod penderfyniad yn cael ei wneud am ddarpariaeth ychwnegol i addysg Gymraeg yn yr ardal. Gosodwyd tri caban ar dir yr ysgol i ddygymod efo'r cynnydd hwn. Trefniant dros dro oedd bwriad hwn ond hyd yn oed ar ôl agor Ysgol Bro Alun, mae'r galw am lefydd ym Mhlas Coch yn parhau yn uchel. Felly, ers Medi 2017, mae nifer derbyn swyddogol yr ysgol ar gyfer y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn wedi ei gynyddu i 45 yn barhaol. Adeiladwyd estyniad parhaol i'r ysgol yn ystod 2016 a fe'i agorwyd yn swyddogol yn Chwefror 2017. Symudwyd dau o'r cabanau oddi ar y safle yn 2017 a 2018 gyda un yn cael ei gadw ar gyfer cynnig darpariaeth cyn ysgol (Cylch Hill Street) ac adleoli y Meithrin + yn y prynhawniau.

Mae Ysgol Plas Coch yn derbyn plant rhwng 3-11 oed. Y cyfrwng dysgu yw'r iaith Gymraeg. Gyda phob plentyn, y Cymry Cymraeg a'r di Gymraeg addysgir darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg hyd at 7 oed. O 7 oed ymlaen (CA 2) addysgir Saesneg fel pwnc. Bydd yr addysgu ym mhob maes a phwnc (heblaw am Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg fydd iaith bob dydd yr ysgol y bydd y staff yn ei siarad efo'i gilydd. Unwaith y mae'r plant yn medru siarad Cymraeg, disgwylir iddynt ei defnyddio yn y dosbarth ac ar y buarth. Nid oes dewis ym mha iaith y caiff y plant eu haddysgu yma gan ein bod yn ysgol gyfrwng Gymraeg. Byddwn yn sicrhau dilyniant yn y defnydd o'r iaith o'r Cyfnod Sylfaen i CA 2 ac yna drwy drosglwyddo i Ysgol Morgan Llwyd. Pe bai plentyn yn dod i'r ysgol o ysgol gyfrwng Saesneg, byddwn yn

gwneud trefniadau priodol i'r plentyn gael ei drochi yn y Gymraeg, ar y safle,
am gyfnod mewn cydweithrediad efo'r AALI

**Derbynnir plant i'r ysgol ar y sail fod y rhieni yn awyddus iddynt ddysgu
Cymraeg. Does dim rhaid bod rhieni'n medru siarad Cymraeg.
Oherwydd y dasg sydd o flaen y plant disgwyliwn bob cefnogaeth gan y
rhieni yn y broses yma.**

Yr Ysgol
Gwybodaeth Gyffredinol a Chyfeiriadau

Cyfeiriad yr Ysgol	Ysgol Plas Coch Ffordd Stansty, Wrexham
Cod Post	LL11 2BU
Teleffon	01978 311198
FAX	01978 311198
Safle Gwe	https://ysgolplascoch.cymru
E Bost	mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk

Pennaeth	Mr Osian Jones
Dirprwy Benaethiaid y ffederasiwn	Mrs Awel Watson-Smyth (Bro Alun) Mr Geraint Rhys Jones (Plas Coch)
Cadeirydd Llywodraethwyr	Mr. Andrew Parry

Neuadd y Dref	Neuadd y Dref, Wrexham
Swyddfa Addysg	16 Stryt yr Arglwydd, Wrexham
Cod Post	LL13 8AZ
Teleffon	01978 297505
FAX	01978 297501
Safle We	www.wrexham.gov.uk

Prif Swyddog Addysg	Karen Evans (AALI)
----------------------------	--------------------

Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth GWE	Mr Dafydd Rhys (GWE)
Swyddog Cynhwysiant	Miss Elen Williams (AALI)
Derbyniadau ac Apêl	Mrs Janette Curtis (AALI)
Gweithiwr Addysgol Cymdeithasol	Mrs Jodie Gittins (AALI)

Cludiant Ysgol	Siân Roden (AALI)
Cinio Rhad	Mr Steve Jones (AALI)

Seicolegydd Addysg	Miss Anna Riley (AALI)
Swyddog Cwynion yr AALI	Mr Dafydd Ifans (AALI)
Nyrs yr Ysgol	Mrs Iona Griffiths a Mrs Tracey Birch

Derbyniadau ac Amseroedd

Mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, fel Awdurdod Addysg Leol (yr AALI), yn gyfrifol am benderfynu ar y meini prawf a gweithdrefnau derbyn ac am dderbyn yr holl ddisgyblion i ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig cymunedol ac ysgolion a reolir yn wirfoddol. Mae'r AALI yn ymgynghori â chyrrff llywodraethol ysgolion bob blwyddyn ynghylch meini prawf derbyn.

Mae cyrrff llywodraethol ysgolion a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig yn gyfrifol am benderfynu ar feini prawf a gweithdrefnau derbyn, ac am dderbyn disgyblion i'w hysgolion. Mae'r cyrrff llywodraethol yn ymgynghori'n flynyddol gyda'r Awdurdod Addysg Leol ynghylch unrhyw newidiadau yn eu meini prawf derbyn.

Bydd yr AALI yn cydymffurfio â gofynion statudol a bydd yn rhoi cydnabyddiaeth lawn i ddewis rhieni yng nghyd-destun ei ddyletswydd i sicrhau darpariaeth addysg effeithiol a defnydd effeithiol o adnoddau addysg. Ni fydd yr AALI yn gwrthod ymgeiswyr i ysgol benodol oni bai bod yr ysgol honno wedi cyrraedd ei nifer safonol, sef y nifer y gall yr ysgol ei derbyn i unrhyw grŵp blwyddyn.

Bydd yr AALI yn derbyn disgyblion hyd at nifer safonol bob ysgol neu hyd at derfyn uwch a allai fod wedi ei gytuno rhwng y Fwrdeistref Sirol a chorff llywodraethol penodol.

Bydd yr AALI yn derbyn disgyblion dros ben y nifer safonol lle ystyrir nad yw'n amharu ar ddarpariaeth effeithiol neu ddefnydd effeithiol o adnoddau yn unig.

Y Nifer Safonol yw nifer y plant y gellir eu derbyn i bob grŵp blwyddyn yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae'r nifer safonol hwn yn cael ei benderfynu yn unol â'r gofynion statudol.

Derbyn i ysgolion a gynhelir gan yr AALI Addysg Feithrin

Bydd yr Awdurdod yn derbyn plentyn i ysgol feithrin a gynhelir yn y mis Medi sy'n dilyn pen-blwydd y plentyn yn 3 oed. Darperir addysg feithrin, mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg o fewn yr Awdurdod, ar sail 5 sesiwn yr wythnos o 2.5 awr y dydd ar gyfer pob plentyn.

Er y gwneir pob ymdrech i gwrdd â dewis rhieni, nid yw addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol ac nid oes gan rieni hawl i apelio dan ddeddfwriaeth addysg os na lwyddant i gael lle meithrin i'w plentyn yn eu dewis ysgol.

Gall rhieni ddatgan dewis am unrhyw ysgol, heb ystyried lleoliad y cartref mewn perthynas â'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw mynegi dewis yn gwarantu lle yn yr ysgol honno.

Bydd cludiant i'r ysgol feithrin yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

Os gwneir gormod o geisiadau am leoedd, ymdrinnir â cheisiadau am leoedd meithrin gan ddefnyddio'r meini prawf.

Wrth benderfynu ar yr 'ysgol briodol agosaf', bydd yr Awdurdod yn derbyn cyfeiriad cartref y disgybl yn unig ac nid cyfeiriad y gwarchodwr plant neu deidiau a neiniau, er enghraifft. Mae'n bosibl y gofynnir i rieni ddarparu dogfennaeth swyddogol sy'n dangos eu cyfeiriad cartref.

Gellir tynnu lle ysgol yn ei ôl os yw'r wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais yn dwyllodrus neu'n gamarweiniol.

Mae ffurflenni cais ar gyfer derbyn i ysgol feithrin ar gael ar safle gwe Cyngor Wrexham (www.wrexham.gov.uk) neu o'r Ganolfan Gyswllt yn y dref. Byddant ar gael yn dilyn y gwyliau Nadolig cyn y flwyddyn ysgol y gall y plentyn ddechrau yn yr ysgol feithrin. Mae'n bosibl y gofynnir i rieni ddarparu dogfennaeth swyddogol sy'n dangos dyddiad geni eu plentyn/plant.

Nid yw derbyn plentyn i ddosbarth neu uned feithrin mewn ysgol fabanod neu gynradd benodol yn gwarantu lle dilynol yn yr ysgol honno.

Os yw rhieni yn ystyried gwneud cais am le i'w plentyn/plant yn yr ysgol mae croeso i chwi ymweld â'r ysgol yn ystod y dydd. Cysyllter ar ysgol i wneud apwyntiad.



Ysgol Plas Coch

DYDDIADAU TYMOR 2020-2021



TYMOR YR HYDREF

AGOR: MERCHER, MEDI'R 3ydd 2020
CAU: GWENER, HYDREF 23ain 2020
AGOR: LLUN, TACHWEDD 2IL 2020
CAU: GWENER, RHAGFYR 18FED 2020



TYMOR Y GWANWYN

AGOR: MAWRTH, IONAWR 5ed 2021
CAU: GWENER, CHWEFROR 12FED 2021
AGOR: LLUN, CHWEFROR 22ain 2021
CAU: GWENER, MAWRTH 26AIN 2021



TYMOR YR HAF

AGOR: MAWRTH, EBRILL 13EG 2021
CALAN MAI: LLUN, MAI 3ydd 2021
CAU: GWENER, MAI 28ain 2021
AGOR: LLUN, MEHEFIN 7fed 2021
CAU: GWENER, GORFFENNAF 16eg 2021

DIWRNODAU HYFFORDDIANT MEWN SWYDD

MEDI 1af a 2il 2020
IONAWR 4ydd 2021
CHWEFROR 22AIN 2021
MAWRTH 26AIN 2021
GORFFENNAF 19EG A 20FED 2021

Amseroedd dyddiol

SESIWN	AMSEROEDD			
	MEITHRIN	DERBYN	BL 1 A 2	ADRAN IAU
Cofrestru	9:00	9:00	9.00	9.00
Sesiwn 1	Yn amrywiol yn ystod y bore. Bydd y sesiwn fore yn dod i ben am 11:30am	9:15	9.15	9.15
Egwyl		Amrywio	10.30	10.45
Sesiwn 2		Amrywio	10.45	11.00
Cinio		12:00	12:00	12.15
Sesiwn 3		1:00	1.00	1.15
Egwyl		Amrywio	2.30	2.20
Sesiwn 4		Amrywio	2.45	2.30
Diwedd y Dydd		3:30	3.30	3.30

- Mae'n bosib y bydd rhai o'r amseroedd egwyl / cinio yn newid yn ystod y flwyddyn
- Ni ddylai plant gyrraedd yr ysgol cyn 8.50 a.m. onibai eu bod yn dod ar y bws neu'n mynd i'r clwb brecwast.
- Bydd athrawon ar ddyletswydd ar y buarth am 8.50a.m. ond ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am blant (heblaw'r rhai sy'n teithio ar y bws neu'n mynychu'r clwb brecwast) sy'n cyrraedd cyn 8.50a.m neu yn yr ysgol ar ôl 3.30p.m.

O fewn wythnos gyffredin yr oriau dysgu yw:

Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
23.5	24

Staff Yr Ysgol 2020-21

Uwch dim Rheoli'r Ysgol

Pennaeth:

Mr. Osian Jones

Dirprwy Bennaeth:

Mr Geraint Rhys Jones

Arweinydd Cyfnod Sylfaen:

Miss Carys Williams

Arweinydd Adran Iau:

Mr Geraint Rhys Jones

Cydlynnydd ADY / Ymddygiad:

Mrs Cheryl Vaughan

Athrawon:

Uned Blynyddoedd Cynnar (Meithrin a Derbyn)

Mrs Sian Rogers
Miss Elain Roberts(0.5)
a Miss Llio Hughes
(0.5)

Blwyddyn 1 a 2 (Gwenfro)

Miss Sian Moreton
Mrs Catrin Higgitt (0.8)
a Mr Gareth Hughes
(0.2)

Blwyddyn 1 a 2 (Dyfrdwy)

Miss Carys Williams a
Mr Gareth Hughes (0.2)

Blwyddyn 1 a 2 (Clwyd)

Miss Bethan Morris

Blwyddyn 3 a 4

Mrs Ffion Yaxley-
Murray (0.8) a Mrs
Angharad Parkes (0.2)

Blwyddyn 3 a 4

Mrs Sian Wyn

Blwyddyn 3 a 4

Miss Elen Mostyn

Blwyddyn 5 a 6

Mr Iestyn Jones
Mr Geraint Jones / Mrs
Angharad Parkes

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Miss Rebecca Scott

CPA Adran Iau

Mrs Cheryl Vaughan
Mrs Rhian Booth a Mrs
Angharad Parkes

CPA Cyfnod Sylfaen

Mrs Carys Hughes

Cymhorthyddion Addysgu Meithrin a Derbyn

Miss Paula Richardson

Ms Ceinwen Williams

Miss Chloe Oldland

Mrs Nicola Edwards

Mrs Jayne Williams

Miss Morfudd Austin (a rhaglen ymyrraeth Dyfal Donc / cymorth

llythrennedd penodol)

Mrs Gemma Allen

Miss Sarah Birch

Cymhorthyddion Addysgu BI 1 a 2

Mrs Kerry Edwards (Clwyd)
Miss Gemma Hughes (Dyfrdwy)
Miss Ceri Jones (Gwenfro)

Cymhorthyddion Addysgu CA 2

Mr Alan Rogers (a rhaglen ymyrraeth Dyfal Donc)
Mrs Rhian Booth (ac unigolion a grwpiau ADY)

Cymhorthydd ELSA (cymorth emosiynol) ac unigolion a grwpiau ADY

Mrs Helen Jones

Ysgrifenyddes / Gweinyddol

Mrs Eleri Owens
Mrs Tracie Smith

Gofalwr

Mrs Julie Benton

Glanhawyr

Amrywiol – o dan ofal CBSW

Cogyddion (o dan ofal CBSW)

Amrywiol – o dan ofal CBSW

Gweinyddesau Cinio

Mrs Donna Breese
Mrs Jayne Evans
Mrs Jane Challinor

Staff Clwb Brecwast

Ms Ceinwen Williams
Mrs Tracie Smith
Mrs Gemma Allen
Mrs Jayne Williams (rhan amser)
Mr Alan Rogers
Miss Eleri Davies
Mrs Helen Jones (rhan amser)

Staff Clwb ar ôl Ysgol

Mr Alan Rogers
Mrs Alison White
Mrs Donna Breese

Y Corff Llywodraethol

Ffurfiwyd y corff llywodraethol presennol yn Hydref 2013. Mae'n gorff sy'n llywodraethu ar Ysgol Plas Coch ac Ysgol Bro Alun, y ddwy ysgol sy'n rhan o'r ffederasiwn. Bydd llywodaethwyr yn gwneud cyfnod cyfnod o 4. Ar hyn o bryd, dyma aelodaeth y corff ond gall newid yn ystod y flwyddyn addysgol wrth i gyfnodau gwahanol lywodraethwyr ddod i ben.

Cadeirydd: Mr Andrew Parry (Cyfethol)
Is-Gadeirydd: Mrs Jane Angharad (Rhiant Plas Coch)
Mr Steffan Morris (Rhiant Plas Coch)
Mrs Sian Bostock (Rhiant Plas Coch)
Mrs Rachel Durnell (Cyfethol)
Miss Ffion Hughes (Staff Addysgu Bro Alun)
Gwag (Staff ategol Bro Alun)
Mr Alan Rogers (Staff ategol Plas Coch)
Miss Rebecca Scott (Staff Addysgu Plas Coch)
Mrs Margaret Jones (AALI)
Mrs Gwenfair Jones (Cyngor Cymuned Gwersyllt)
Mrs Wendy O'Grady (Cyngor Cymuned Rhosddu)
Mrs Bethan Roberts (AALI)
Mrs Rhodd Arnold (AALI)
Mrs Becky Holmes (Rhiant Bro Alun)
Mrs Jenny Foulkes-Hanmer (Rhiant Bro Alun)
Mrs Andrea Jorgensen (Rhiant Bro Alun)
Mrs Wendy O'Grady (Cyngor Cymuned Rhosddu)
Mr Marc Jones (AALI)
Mr Osian Jones (Pennaeth Plas Coch a Bro Alun)

Aelodau o'r is-bwyllgorau (i'w cadarnhau ym Medi 2020)

Disgyblu a diswyddo staff

Bethan Roberts
Wendy O'Grady
Gwenfair Jones

Apeliadau diswyddo a disgyblu staff

Andrea Jorgensen
Rhodd Arnold
Sian Bostock

Disgyblu a Gwahardd Disgyblion

Margaret Jones
Rachel Durnell
Marc Jones

Cwynion

Bethan Roberts
Becky Holmes
Jenny Foulkes-Hanmer
Steffan Morris
Marc Jones

Rheoli Perfformiad y pennaeth

Andrew Parry
Jane Angharad Edwards
Cymrychiolydd GWE

Staffio a Thâl Cydnabyddiaeth Staff

Andrew Parry
Osian Jones
Jane Angharad
Gwenfair Jones

Cyllid

Margaret Jones
Andrew Parry
Gwenfair Jones
Osian Jones
Andrea Jorgensen

Cwricwlwm a Bugeiliol

Jane Angharad
Steffan Morris
Wendy O'Grady
Alan Rogers
Ffion Hughes
Rebecca Scott
Osian Jones

Safle, Amgylchedd, Lles Iechyd a Diogelwch

Ffion Hughes
Andrew Parry
Jenny Foulkes-Hanmer
Jane Angharad
Osian Jones
Rebecca Scott

Cymunedol

Rachel Durnell
Wendy O'Grady
Andrew Parry
Marc Jones
Gwenfair Jones
Osian Jones

Llywodraethwyr Cyswllt

Anghenion Dysgu Ychwanegol: Steffan Morris

Amddiffyn Plant: Sian Bostock

Iechyd a Diogelwch: Jenny Foulkes-Hanmer

Mae corff llywodraethol y ffederasiwn yn prynu mewn i wasanaeth ymgynghori a chlercio llywodraethol yr AALI.

Trefniant yr Ysgol 2020-21

Mae'r ysgol wedi ei threfnu i adrannau Cyfnod Sylfaen (Meithrin, Derbyn, BI 1 a BI 2) a Chyfnod Allweddol 2 (BI 3,4,5,6)

Ym mis Medi 2020 bydd y disgyblion wedi eu grwpio i gofrestru fel y nodir isod. Mae niferoedd y disgyblion fel y maent ar hyn o bryd – gall rhain newid yn ystod y flwyddyn wrth i rai adael a rhai newydd gyrraedd.

Athro / Athrawes	Cyfnod	Grŵp Blwyddyn	Oedran	Nifer
Blynyddoedd Cynnar Sian Moreton (Bers) Elain Roberts / Llio Hughes (Erddig) Sian Rogers (Clywedog)	Cyfnod Sylfaen	1 x Meithrin 2 x Derbyn a Meithrin	3-5	79 (44 M 35 D)
Catrin Higgitt a Gareth Hughes		BI 1 a 2 (Gwenfro)	5-6	27 (13 BI 1 14 BI 2)
Carys Williams		BI 1 a 2 (Dyfrdwy)	5-6	28 (BI 1 13 BI 2 15)
Bethan Morris		BI 1 a 2 (Clwyd)	5-6	28 (BI 1 14 BI 2 14)
Sian Wyn	Cyfnod Allweddol 2	BI 3 a 4 (Glyndwr)	7-8	26 (BI 3 12 BI 4 14)
Ffion Yaxley-Murray ac Angharad Parkes		BI 3 a 4 (Llywelyn)	7-9	28 (BI 3 14 BI 4 14)
Elen Mostyn		BI 3 a 4 (Gwenllian)	7-9	24 (BI 3 13 BI 4 11)
Rebecca Scott		BI 5 a 6 (Coed Ywen Owrtyn)	9-11	25 (BI 5 11 BI 6 14)
Iestyn Jones		BI 5 a 6 (Clochdy San Silyn)	9-11	24 (BI 5 10 BI 6 14)
Geraint Jones / Angharad Parkes		BI 5 a 6 (Clychau Gresffordd)	9-11	27 (BI 5 14 BI 6 6)

Mae athrawon dosbarth yn gyfrifol am addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm i'w dosbarthiadau. Gall arbenigedd pwnc olygu y gall eich plentyn gael ei addysgu gan athrawon eraill yn ogystal.

Athrawon Dosbarth	Bydd yr athrawon dosbarth yn defnyddio amrywiaeth o arddulliau sy'n adlewyrchu galluoedd, dawn a diddordeb y plant. Bydd trefniant y dosbarth a throsglwyddiad y cwricwlwm yn adlewyrchu beth sy'n briodol i hyrwyddo dysgu ymysg y plant ar unrhyw adeg, oedran a chyddestun gan gynnwys addysgu dosbarth cyfan, grŵp neu unigolyn.
Arweinwyr Pwnc neu Feysydd	Yn ychwanegol i'w gofal dosbarth mae athrawon yn gyfrifol am agweddau penodol o'r cwricwlwm. Bydd rôl pob arweinydd pwnc yn hyrwyddo arfer da, ymgynraedd tuag at welliant, a chwarae rhan bwysig i lunio'r cynllun datblygu ysgol.
Cymorthyddion Dosbarth	Cyflogir y cymorthyddion dosbarth i gefnogi'r athrawon drwy gyflawni amrywiaeth o dasgau yn ystod y dydd. Mae rôl pob cymhorthydd yn ddibynnol ar hyfforddiant a'r profiad sydd angen i gyflawni tasgau penodol.
Uwch Reolwyr	Mae cyfrifoldebau ychwanegol gan y Pennaeth, Dirprwy a rhai o'r athrawon profiadol sy'n ymwneud a materion ysgol gyfan.

Y Cytundeb Llwyth Gwaith Cenedlaethol

Efallai eich bod yn ymwybodol bod newidiadau wedi digwydd mewn ysgolion o ganlyniad i'r Cytundeb Cenedlaethol – Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith.

Beth yw'r Cytundeb Cenedlaethol?

- Mae'r Cytundeb Cenedlaethol wedi ei lunio i gefnogi codi safonau mewn ysgolion.
- Mae'n amcanu i wneud hyn drwy alluogi athrawon i dreulio mwy o amser yn addysgu drwy eu rhyddhau o swyddogaethau eraill a chydabod y gall oedolion eraill sy'n gweithio mewn ysgolion wneud cyfraniad gwerthfawr i addysg plant.

Pwy benderfynodd ar y newidiadau hyn?

- Y Llywodraeth, cyflogwyr ac arwyddodd rhai o'r undebau'r cytundeb hwn.
- Mae'n rhaid i bob ysgol a Chorff Llywodraethwyr yn ôl y ddeddf weithredu'r newidiadau.
- O Fedi 2005, mae gan athrawon yr hawl i amser i gynllunio, paratoi ac asesu o fewn y diwrnod ysgol - Amser CPA.

Beth mae CPA yn ei olygu?

- Mae amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA) yn cael ei roddi i athrawon i gynllunio, paratoi ac asesu gwaith disgyblion.
- Mae'n rhaid ei ddarparu yn ystod diwrnod ysgol.
- Bydd hyn yn lleihau'r swm aruthrol o waith mae athrawon yn ei wneud ar hyn o bryd ar ôl ysgol.

Beth fydd eich plentyn yn ei wneud yn ystod amser CPA yr athro?

- Bydd y disgyblion yn cwblhau gweithgareddau sy'n rhan o'r cwricwlwm ysgol.
- Ym Mhlas Coch bydd disgyblion yn cael eu haddysgu gan athro / athrawes neu Gymhorthydd Lefel 4 yn ystod amser CPA yr athro/athrawes ddisbarth.
- Bydd y Pennaeth a'r Corff Llywodraethwyr yn sicrhau bod safon yr addysg yn cael ei gynnal.

Y Disgyblion

Y Cyngor Ysgol

Mae ein Cyngor Ysgol wedi ei lunio o gynrychiolwyr etholedig o bob dosbarth o Flwyddyn 2 i 6.

Bydd y cyngor yn cyfarfod o leiaf unwaith bob hanner tymor gan drafod materion y mae'r plant wedi eu codi ynglyn â datblygiad yr ysgol.

Mae yna hefyd wahanol is-bwyllgorau / cynghorau sydd wedi eu rhoi at ei gilydd o blith y disgyblion e.e. eco, dewiniaid digidol, llysgenhadon iaith

Rheolau'r Ysgol

Yn yr ysgol hon mae **rheolau** yn cael eu cadw i'r isafswm tra bo'r rhai hynny sydd ganddom gyda'r bwriad o fod o gymorth i wneud bywyd yn fwy pleserus i bawb, oherwydd maent yn ymwneud a diogelwch a lles y disgyblion. Ategir y rhain gan "**Reolau Aur**" yr ysgol. Ein bwriad yw annog ym mhob plentyn yr ymdeimlad o hunanddisgyblaeth, hunan-barch a pharch tuag at eraill a'i heiddo.

Dylai **symudiad** o gwmpas yr ysgol fod yn dawel a threfnus yn enwedig yn y coridorau a'r cynteddau ble y gall damweiniau ddigwydd.

Yn ystod oriau ysgol ni all unrhyw blentyn adael yr ysgol heb ganiatâd. Gall rhieni gasglu eu plant ar gyfer apwyntiadau meddygol etc ond dylid hysbysu ymlaen llaw. Gofynnir i rieni gysylltu â'r swyddfa wrth gasglu neu ddychwelyd eu plentyn.

Gofynnwn i blant beidio â gwisgo **gemwaith** heblaw oriawr ac os oes raid gwisgo clustdlysau, dim ond "studs" yn unig.

Ni ddylai disgyblion ddod a gwm cnoi, ffôn symudol, lpod (neu ddyfais debyg) na gemau cyfrifiadur i'r ysgol heblaw i'r athro dosbarth wneud cais iddynt ddod a hwy.

Gofynnwn i ddisgyblion ddilyn **cyfarwyddiadau** y tro cyntaf. Gofynnwn i ddisgyblion ddefnyddio llais o lefel briodol yn ystod gweithgareddau ysgol. Byddwn yn cyfarwyddo'r disgyblion i beidio â defnyddio dwylo, traed, gwrthrychau neu sylwadau niweidiol ar eraill.

Mae'r plant yn ymwybodol o bolisi **dim sbwriel** gweithredol yr ysgol a gofynnwn i oedolion annog ac arddangos ymlyniad i'r polisi hwn.

Mae angen arddangos **cwrteisi ac ystyriaeth** ym mhob ymddygiad a sefyllfa. Bydd y Pennaeth neu'r staff perthnasol yn archwilio unrhyw ddigwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol, bygythiol neu o fwlio ar unwaith gan ddilyn ein polisiau ymddygiad a gwrth fwlio.

Ni chaiff neb ymyrryd ac eiddo disgyblion eraill. Dylai unrhyw eiddo gael enw'r perchennog arno.

Bydd gwybodaeth o unrhyw addasiadau i reolau yn cael ei roi i'r disgyblion yn ystod y gwasanaeth neu drwy'r Cyngor Ysgol. Rhoddir gwybodaeth i rieni drwy lythyr.

Anogir holl staff yr ysgol i **helpu ac atgoffa'r** disgyblion i ddilyn y rheolau.

Ymddygiad Amser Cinio

Yn ystod yr awr ginio bydd y disgyblion yn cael ei arolygu gan y **Gweinyddesau Cinio**. Disgwyliwn i'r disgyblion arddangos yr un parch a chwarteisi fel sy'n briodol ac a ddisgwylir at weddill staff yr ysgol.

Mae'r **Gweinyddesau Cinio** wedi cael eu hyfforddi i helpu'r disgyblion i fwynhau eu awr ginio ac mae ganddynt fynediad i adnoddau amrywiol i'w diddori waeth beth fo'r tywydd. Mae'r ysgol wedi buddsoddi arian i brynu offer addas gogyfer a'r holl ddisgyblion.

Mae'r **Gweinyddesau Cinio** yn ymwybodol o'n dulliau rheoli ymddygiad a byddant yn dilyn cyfarwyddiadau'r Amser Aur yn yr un modd a'r athrawon.

Canlyniadau

Mae pob disgybl yn ymwybodol o ganlyniad ymddygiad nad yw'n dderbyniol a bydd hyn yn arwain tuag at golli Amser Aur.

I hyrwyddo ymddygiad derbyniol mae'r ysgol wedi mabwysiadu'r drefn o Amser Aur. Sefydlwyd naw rheol aur ac os bydd unrhyw blentyn yn torri un o'r rheolau aur bydd rhybudd y tro cyntaf ond os torrir rheol ail waith bydd enw yn mynd i'r ffeil a bydd y plentyn yn colli rhan o Amser Aur. Pe bai unrhyw blentyn wedi colli Amser Aur dair gwaith yna bydd y cyd-gordiwr ymddygiad yn cael sgwrs a'r plentyn. Os yw Amser Aur yn cael ei golli tair gwaith yn dilyn y sgwrs yna bydd llythyr yn mynd adref a gofynnir i'r rhieni ddod mewn i drafod y sefyllfa. Gan fod ymddygiad da yn ffactor hanfodol i lwyddiant addysgol disgwyliwn am gydweithrediad llawn y rhieni wrth ymdrin ag unrhyw broblem.

Byddwn yn **cysylltu â'r rhieni** drwy lythyr neu alwad ffôn ar unwaith mewn achosion o ddifrod bwriadol neu droseddau mynych. Os oes ymddygiad gwael parhaus yn bodoli yna mae cydweithrediad y rhieni yn hanfodol a bydd angen eu cefnogaeth i ymdrin â'r broblem. Disgwyliwn ymateb positif a chydweithrediad llawn wrth ddelio a phroblemau ymddygiad.

Gyda'r **achosion eithaf** lle mae pob ymgais wedi methu neu achos o gamymddwyn difrifol e.e. ymosod ar aelod o staff, mae gan y Pennaeth yr hawl i **eithrio** disgybl am gyfnod byr, penodol neu barhaol. Dilyniir gweithdrefnau AALI Wrecsam a Llywodraeth Cymru os oes rhaid gwneud hyn.

Byddwn yn gyson annog disgyblion i wneud y penderfyniadau cywir ac yn rhoddi cyfleoedd iddynt adlewyrchu am eu gweithredoedd.

Gwisg Ysgol

Byddwn yn annog disgyblion i wisgo'r wisg ysgol oherwydd credwn ei bod yn cyfrannu tuag at ethos yr ysgol drwy hybu ymddygiad gwell a meithrin yr ymdeimlad o berthyn ymysg disgyblion.

Mae gwisg ysgol yn cael ei defnyddio gan bob disgybl ac mae'n cael ei groesawu gan y mwyafrif o rieni. Maent ar gael i'w prynu o siop Forrester Sports yn yr Wyddgrug neu oddi ar ei safle gwe ar www.monkhouse.com Mae gan y crysau polo, siwmperi a'r gardigan fathodyn yr ysgol arnynt.

Dyma'r wisg yr hoffem i ddisgyblion ei gwisgo o fewn muriau'r ysgol.

Trowsus du neu lwyd
Crys polo gwyrdd
Siwmpwr goch
Esgidiau du
Cardigan goch
Sgert lwyd neu ddu
Ffrog gingham coch/gwyn

Yn achlysurol mae plant yn colli rhan o'u gwisg. A fedrwch chi fod o gymorth i ni ddod o hyd i unrhyw ddilledyn drwy sicrhau bod **enw eich plentyn** wedi ei nodi yn glir ar bob darn?

Byddwn yn rhoi unrhyw ddilledyn a ddarganfyddwn yn y **bocs coll** a bydd arddangosfa reolaidd o gynnwys y bocs i'r holl ysgol.

Ni ddylid gwisgo **clustdlysau** i'r ysgol a hynny oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. Os oes raid gwisgo un, yna dylai fod yn "stud", ond bydd raid eu tynnu ar gyfer gweithgareddau addysg gorfforol.

Byddwn yn gwneud ymdrech i adael i'r holl blant gael mynd allan i chwarae yn ystod pob egwyl. Felly mae'n hanfodol eu bod yn gwisgo cotiau cynnes yn ystod misoedd y gaeaf ac ystyried diogelwch rhag yr haul yn ystod misoedd yr haf.

Mae manylion am yr uchod ar gael yn y polisi gwisg ysgol sydd yn cael ei adolygu bob tair mlynedd (adolygiad diwethaf yn Hydref 2019).

Y Clwb Brecwast

Mae'r clwb brecwast ar gael i bob plentyn a gall rhieni ddod a'u plant i'r ysgol rhwng 8.05am a 8.45am. Gan ddilyn trefn CBSW, codir tal o £1 y plentyn os yn mynychu rhwng 8:05am ac 8:25am. Mae'r clwb am ddim i unrhyw un sy'n mynychu rhwng 8:25am ac 8:45am. Arolygir y plant gan staff y clwb brecwast.

Ni all unrhyw blentyn ddod i'r clwb brecwast os nad yw'n cymryd brecwast. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu brecwast rhad ac iach i bob plentyn sydd yn ei ddymuno.

Gellir cael ychwaneg o wybodaeth o swyddfa'r ysgol.

Clwb Ar Ôl Ysgol

Mae'r ysgol yn cynnal Clwb ar ôl ysgol yn ddyddiol rhwng 3:30 a 5:25. Arolygir y plant gan staff y clwb a chynigir lluniaeth ysgafn ac amrywiaeth o weithgareddau y tu mewn ac os ydi'r tywydd yn caniatáu, y tu allan. Codir tâl yn ddibynnol ar faint o amser mae'r plant yn aros. Cysylltwch â'r ysgol am fanylion y gost.

Trosglwyddo

Mae'r trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd yn gyfnod pwysig iawn ym mywyd pob plentyn.

Bwriad yr ysgol yw gwneud y trosglwyddiad mor esmwyth â phosib drwy:

- trefnu cyfnod i blant Blwyddyn 5 a 6 ymweld â'r ysgol uwchradd i gwrdd ar staff
- trefnu cyfnodau ychwanegol i grwp o blant fydd efallai angen mwy o gymorth nac eraill i setlo yno (grwp anwytho)
- trefnu diwrnod Technoleg i blant Blwyddyn 5 yn yr ysgol uwchradd ddiwedd tymor yr haf.
- annog parhad yn y cwricwlwm, dulliau dysgu a threfniant dosbarth;
- bydd holl ddisgyblion Blwyddyn 6 yr ysgolion sy'n bwydo Morgan Llwyd yn mynychu cwrs tri diwrnod yng nghanolfan yr Urdd Glan-llyn pryd y byddant yn cael cyfle i gwrdd ar holl blant sy'n trosglwyddo gyda hwy i'r ysgol uwchradd.

Mae trosglwyddo o gylchoedd, meithrinfeydd ayyb i fewn i ddosbarth Meithrin yr ysgol yn hynod o bwysig hefyd. Bydd staff y dosbarth Meithrin yn ymweld efo sefydliadau yn ystod tymor yr haf i hwyluso'r broses o gychwyn plant yn yr ysgol. Cynhelir nosweithiau rhieni i rieni plant fydd yn cychwyn Meithrin a Derbyn tua dechrau Mehefin yn flynyddol. Bydd cyfle hefyd i'r plant dreulio ychydig o amser yn yr ysgol iddynt hwy ddod i arfer yn ystod yr wythnos drosglwyddo fis Mehefin.

Byddwn hefyd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod trosglwyddo o ysgol arall i Blas Coch yn digwydd mor esmwyth a phosib gan gadw mewn cysylltiad efo'r ysgol flaenorol a chydweithio efo adran dderbyniadau ysgol y Cyngor.

Y Cwricwlwm Y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Rhaglen Astudio

Strwythur y Cwricwlwm Cenedlaethol

Yn ôl y gyfraith mae'n orfodol i bob ysgol a gynhelir, ddarparu cwricwlwm sy'n cynnwys Addysg Grefyddol ynghyd a'r Cwricwlwm Cenedlaethol i Flynyddoedd 3 i 6 a'r Canlyniadau Dymunol i'r Cyfnod Sylfaen.

Pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Yn ychwanegol i Addysg Grefyddol caiff eich plentyn gyfle i astudio'r pynciau canlynol.

Pynciau Craidd	Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth
Pynciau Sylfaenol	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Addysg Gorfforol, Hanes, Daearyddiaeth, Cerdd, Celf, Dylunio a Thechnoleg, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Dinasyddiaeth Byd Eang.

Cyfnodau Allweddol a Threfniadau Asesu

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi ei drefnu i bedwar Cyfnod Allweddol. Ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol ym mhob pwnc mae safonau perfformiad y disgyblion yn cael ei nodi mewn deilliannau / disgrifiadau lefel sy'n gynyddol gynyddu. Mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn rhedeg o 1 i 6 tra bod gan lefelau amrediad o 1 i 8 ac uwch.

Asesir y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol a bydd ei gynnydd yn cael ei fesur mewn perthynas â safonau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Rhaglen Astudio ddynodir yn y disgrifiadau lefel. Yn yr ysgol hon asesiad athro yw sail yr asesiad ynghyd a'r defnydd o brofion safonol.

Bydd rhieni disgyblion Blwyddyn 2 a 6 yn cael gwybodaeth am ddeiliant / lefel eu plentyn yn yr adroddiad blynyddol.

Cyfnod Allweddol	Oedran	Grŵp Blwyddyn	Lefel Ddisgwyliedig
Cyfnod Sylfaen	3 – 7 oed	Meithrin, Derbyn BI 1 & 2	Deiliant 5
C.A. 2	7 – 11 oed	BI 3,4,5 a 6	Lefel 4

Y Cwricwlwm Ysgol

Y **cwricwlwm** yw'r amrediad o bynciau a addysgir i ddisgyblion. Mae'r ysgol hon yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys ac integredig sy'n herio ac yn ymestyn pob plentyn gan hyrwyddo llawn ddatblygiad pob unigolyn gwaeth beth fo'i oedran neu allu.

Bydd pob plentyn yn cael amrediad o weithgareddau sy'n rhoi cyfle iddynt dyfu nid yn unig yn academaidd ond hefyd yn gymdeithasol a chorfforol. Byddwn yn darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau personol fel cydweithrediad, goddefgarwch, annibyniaeth a threfniadaeth. Dysgir rhai pynciau arwahan tra bo eraill ar adegau yn rhan o thema gyda dulliau dysgu yn amrywio o ddosbarth, grŵp neu unigolyn.

Mae gan yr ysgol amserlenni a pholisïau sy'n amlinellu sut fydd y pynciau yn cael eu dysgu a phryd. Mae cynlluniau gwaith pob pwnc yn rhoddi strwythur clir i'r athrawon. Adolygir y polisïau a'r cynlluniau gwaith yn rheolaidd.

Mae cynllunio, cadw record ac asesu manwl gan yr athrawon yn sicrhau ymdriniaeth a throsglwyddiad llawn o'r cwricwlwm a chefnogir hwy gan y cydlynwyr pwnc o fewn yr ysgol. Mae cydlynnydd pwnc i bob un o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd y cydlynwyr pwnc yn ymestyn eu sgiliau a'u gwybodaeth drwy fynychu cyrsiau, trefnu adnoddau a monitro gwaith o fewn eu pwnc drwy'r ysgol.

Rhoddir blaenoriaeth uchel i ddatblygiad y Sgiliau Allweddol sef, llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a gwneir hynny ar draws holl bynciau'r cwricwlwm.

Fframweithiau llythrennedd a rhifedd

O Fedi 2013 ymlaen, daeth yn statudol fod pob ysgol yn rhoi ar waith y fframweithiau llythrennedd a rhifedd gan eu defnyddio fel sylfaen i'r holl addysgu. Cyhoeddwyd y fframweithiau gan Lywodraeth Cymru gyda'r bwriad o wella sgiliau plant a phobl ifanc yn y ddwy agwedd. Mae'r ysgol wedi rhoi'r fframweithiau ar waith gan roi cyfleuon i'r plant ddefnyddio sgiliau ar draws y cwricwlwm. Fel rhan o'r fframweithiau, bydd pob plentyn o FI 2-6 yn eistedd profion statudol bob mis Mai. Defnyddir canlyniadau'r profion i roi darlun i rieni ac i'r ysgol o safonau llythrennedd a rhifedd y plant. Ym MI 2 a 6, defnyddir y canlyniadau fel darn o dystiolaeth wrth ddod i benderfyniad ynglyn a chyrhaeddiad plant.

Mae'r profion yn cael eu raddol ddisodli gan asesuadau personol a bydd yr ysgol yn gweinyddu'r rhain o leiaf unwaith y flywddyn.

Fframwaith Cynhwysedd Digidol

Ers Medi 2016, mae'r ysgol wedi bod yn dechrau cynllunio a rhoi ar waith y fframwaith cynhwysedd digidol. Bwriad y fframwaith yw rhoi cyfleuon i'r disgyblion wella eu sgiliau digidol ar draws ystod o feysydd.

Iaith – Cymraeg a Saesneg

Mae meistrolaeth dda o iaith yn angenrheidiol i ddatblygiad cyflawn plentyn ac yn arwain tuag at lwyddiant yn yr ysgol ond hefyd yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae llythrennedd yn treiddio'r cwricwlwm cyfan ac mae sgiliau gwrando a siarad, darllen ac ysgrifennu yn berthnasol ar draws y bwrdd.

Darllen

Addysgir darllen drwy'r ysgol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a thechnegau. Arweinir y plant i werthfawrogi arwyddocâd print, adeiladu geirfa weledol gyda gwybodaeth dda o ffoneg ynghyd ac anogaeth i wneud dyfaliad gwybodus. Pan yn briodol gofynnir yn rheolaidd i ddisgyblion ddarllen darn o destun unai yn unigol, grŵp neu fel dosbarth.

Anogir disgyblion i gymryd llyfrau gartref. Mae gan bob plentyn ei Record Ddarllen a disgwyliwn i bob rhiant wrando ar eu plant yn darllen a nodi sylwadau yn y llyfryn record yn ogystal â'r athrawon. Anogir y rhieni i ddarllen i'w plant a gwrando arnynt.

Fel y mae plant yn symud ymlaen drwy'r ysgol byddant yn ehangu amrediad y defnydd darllen, darllen yn ddistaw a dysgu i drafod gyda disgyblion eraill cymeriadau, cynllwyn a hoffter.

Mae'r mwyafrif o blant yn dod yn ddarllenwyr rhugl ac rydym yn amcanu i ymestyn eu darllen a'u sgiliau ymchwilio i destunau mwy heriol, symbylol ac amrywiol.

Ysgrifennu

Mae ysgrifennu allddodol yn arwain yn ddiweddarach at ffurf fwy strwythuredig sy'n rhoddir cyfle rheolaidd i ddisgyblion ysgrifennu ar gyfer gwahanol bwrpas a chynulleidfaoedd.

Fel ag y maent yn dod yn fwy cyfarwydd â chonfensiwn ysgrifennu byddwn yn eu cyflwyno i batrymau sillafu cyfarwydd ynghyd ac atalnodi syml, prif lythrennau a'r bylchiad cywir rhwng geiriau.

Addysgir plant i ganolbwyntio ar olwg a sain geiriau ac anogir hwy i Edrych, Dweud, Gorchuddio, Ysgrifennu a Gwirio wrth ddysgu sillafu. Dysgir hwy sut i adnabod geiriau o fewn geiriau, teuluoedd geiriau, odl a phatrwm. Dysgir hwy hefyd sut i ddefnyddio thesawrws a geiriaduron gwahanol.

Addysgir llawysgrifen drwy roddi canllawiau priodol gan ganolbwyntio ar ysgrifen glwm yn hytrach na phrintio.

Fel mae ysgrifennu'r disgyblion yn datblygu anogir hwy adolygu ac ail ddrafftio eu gwaith, gan roddi pwyslais ar eglurder ac ystyr ynghyd a'r sgil o atalnodi a chysondeb mewn amser y ferf a sillafu.

Oherwydd y pwyslais a roddir ar adeiladwaith brawddegau, gramadeg, atalnodi, sillafu a llawysgrifen gofynnwn i rieni i roddi cefnogaeth i'w plentyn gydag unrhyw waith cartref ysgrifennu neu sillafu. Anogwch eich plentyn i ysgrifennu brawddegau gyda rhai o'r geiriau sillafu fel ei bo yn dod i ddeall ystyr y gair a thrwy hynny atgyfnerthu strwythur brawddeg.

Gwrando a Siarad

Rydym yn amcanu i ddatblygu hyder, hunan-barch a medrusrwydd y disgyblion fel ei bo yn gallu mynegi eu hunain yn effeithiol a phriodol. Credwn y dylai'r plant allu gwrando ac ymateb yn astud a meddylgar ar eraill gan ddangos parch a goddefgarwch i'w safbwynt

Bydd y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd megis darllen yn uchel, trafodaeth grŵp, gweithgareddau drama, cyflwyniad i'r dosbarth, cymryd rhan yn y gwasanaeth ysgol ac unrhyw gyflwyniad i rieni.

Mathemateg

Credwn fod mathemateg yn hygyrch i bawb a gobeithiwn drwy ein haddysg fathemategol bod ein disgyblion yn mynd i fwynhau gweithgareddau mathemategol gyda hyder a llwyddiant. Rhoddir cyfle i'r disgyblion ennill sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol mewn sefyllfaoedd mathemategol a fyddant yn debygol o'u cwrdd mewn bywyd.

Mae fframwaith penodol i wersi mathemateg, yn arferol am tuag awr o amser bob bore. Byddant yn cychwyn gyda mathemateg feddyliol lafar sydd wedi'i lunio i atgyfnerthu sgiliau mathemategol amrywiol yn cynnwys cyfrif, y pedair rheol, amser a'r mesurau. Bydd prif ran y wers yn cael ei ddefnyddio i atgyfnerthu, ymarfer ac ymestyn gwaith blaenorol neu i gyflwyno pwnc newydd. Bydd y wers yn gorffen gyda chyfle i drafod yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y wers.

Cynllunir y gwaith i annog plant i ddatblygu hyder a chymhwysedd gyda rhif a'r mesurau. Maent yn ennill dealltwriaeth o'r system rifo, cyfres o sgiliau cyfrifiannu a'r gallu i ddatrys problemau mewn amrywiol gyd-destun. Ble bynnag y bo'n bosib datblygir eu deallusrwydd mathemategol drwy weithgareddau ymarferol. Mae mathemateg yn ymwneud a disgyblion yn chwilio am batrwm a pherthynas i ddatrys problemau ymarferol a damcaniaethol a hynny drwy ddadansoddi a chyfathrebu gwybodaeth a syniadau.

Mae Cwricwlwm Cenedlaethol Mathemateg yn ymgorffori pedwar maes sy'n cynnwys:

- Rhif,
- Mesurau ac arian,
- Siâp, cyfle a symud,
- Trin Data .

Anogir plant i drafod eu gwaith, gofyn cwestiynau a rhagfynegi yn seiliedig ar brofiad. Igychwyn bydd y gwaith yn ymarferol gan ddysgu i ddatrys problemau drwy ddefnyddio deunyddiau diriaethol. Yn ddiweddarach ceir cyfle i drafod rhifau, defnyddio offer, dysgu mesur a chymharu mesuriadau drwy ddefnyddio unedau safonol ac ansafonol, trefnu a dosbarthu siapiau, adnabod patrwm a chofnodi canlyniadau.

Defnyddir mathemateg i ddadansoddi a chyfathrebu gwybodaeth a syniadau. Mae pawb ei angen i daclo amrediad o dasgau ymarferol a phroblemau real bywyd. Mae mathemateg yn bwnc pwysig iawn oherwydd y defnydd eang ohono mewn sefyllfaoedd bob dydd byd gwaith a gall fod yn sgil allweddol o fewn meysydd cwricwlaidd eraill.

Gwyddoniaeth

Adnabyddir Gwyddoniaeth fel y pedwerydd pwnc craidd ochr yn ochr â Chymraeg, Saesneg a Mathemateg ac mae'n darparu modd cyffrous a phleserus i ymarfer y sgiliau a gafwyd yn y tri phwnc craidd arall.

Mae Gwyddoniaeth yn yr ysgol hon yn darparu cyfle i blant archwilio, darganfod ac ymchwilio amgylchedd cyfagos y dosbarth, tiroedd yr ysgol, y cartref ar amgylchedd ehangach.

Mae addysg wyddonol wedi'i anelu i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd naturiol a'r byd mae dyn yn ei addasu. Maent yn gynyddol ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau gwyddonol drwy weithgareddau ymarferol. Gall gwyddoniaeth gael ei gyflwyno fel rhan o thema.

Yn ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth wyddonol, rydym yn amcanu i gyflwyno prosesau gwyddonol i'r plant drwy addysgu'r sgiliau o arsylwi, dosbarthu, grwpio, cymharu, gofyn cwestiynau, rhagfynegi, profi, chwilio am batrwm neu berthynas, dadansoddi, gwerthuso, cyfathrebu a chofnodi drwy ymchwiliad.

Maent yn raddol ddatblygu'r sgiliau hyn, sy'n eu galluogi i daclo problemau newydd ac ystyried sefyllfaoedd real gyda hyder cynyddol a gwneud penderfyniadau wedi'i selio ar brofiad blaenorol.

Addysgir ac anogir y disgyblion i ddefnyddio iaith wyddonol i drafod ac egluro eu canlyniadau i eraill.

Gwneir y disgyblion yn ymwybodol o beryglon defnyddio a thrafod rhai defnyddiau a phethau byw. Mae athrawon a chymhorthydd dosbarth yn ymwybodol o gyngor iechyd a diogelwch cyfoes.

Dylent allu cysylltu gwybodaeth wyddonol a bywyd bob dydd, defnyddio offer priodol yn ddiogel a gyda hyder.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Mae'r term T.G.Ch. yn cynnwys y defnydd o unrhyw offer sy'n galluogi'r defnyddiwr i gyfathrebu neu drafod gwybodaeth yn electroneg.

Mae T.G.Ch. yn gynyddol effeithio ar ein bywyd ac fel ysgol gwelwn ei bwysigrwydd fel un o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ond hefyd ei bwysigrwydd ar draws y cwricwlwm.

Ein hamcan yw cyfeirio a chynorthwyo'r plant i ddefnyddio T.G.Ch. gyda phwrpas a mwynhad. Datblygir T.G.Ch. i ddarparu plant gydag erfyn gogyfer a dysgu ac ymchwiliadau.

Defnyddia'r plant T.G.Ch. i archwilio a datrys problemau ar draws amrediad o bynciau. Maent yn dysgu sut i gyfathrebu a thrafod amrywiaeth o wybodaeth yn cynnwys testun, graff, darlun a sain ynghyd a defnyddio T.G.Ch. ar gyfer rheoli, monitro a modelu.

Rydym yn bwriadu cryfhau sgiliau ymarferol y plant a'u gallu i gymhwyso'r sgiliau i ddatrys problemau.

Mae darpariaeth T.G.Ch. yn yr ysgol hon yn cynnwys cyfrifiadur ym mhob dosbarth ynghyd a nifer o liniaduron ac IPads. Mae pob cyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r rhyngwyd.

Ni fydd unrhyw blentyn yn cael defnyddio 'r rhyngwyd neu anfon e-bost os nad yw'r rhieni wedi rhoddi caniatâd drwy gwblhau'r ffurflen briodol. Ni fydd defnydd heb oruchwyliaeth.

Gweler y nodyn uchod am y fframwaith cynhwysedd digidol yn ogystal.

Dylunio a Thechnoleg

Mae Dylunio a Thechnoleg yn bwnc datrys problemau ymarferol sy'n pwysleisio darganfod ateb i dasgau a sefyllfaoedd real.

Caiff y plant gyfle i ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, offer a chyfarpar priodol a'u dysgu i'w defnyddio yn ddiogel a doeth.

Mae Dylunio a Thechnoleg yn ymwneud a thechnoleg bwyd yn cynnwys paratoi, coginio a blasu ynghyd a thecstilau, strwythurau a mecanwaith.

Nid yn unig mae cysylltiad agos rhwng Dylunio a Thechnoleg a Gwyddoniaeth, Mathemateg, Celf a T.G.Ch. ond hefyd mae iddo gyfraniad arwyddocaol i ddatblygiad profiadau creadigol ac estheteg y plentyn.

Un amcan o D.T. yw hyrwyddo datblygiad o'r dychymyg a'r defnydd creadigol o ddeunyddiau sy'n gwneud D.T. yn bwnc pleserus er ar adegau gall fod braidd yn anniben.

Mae D.T. yn ymwneud ac ymchwilio, dylunio, gwneud a gwerthuso cynhyrchion er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth.

Mae pob gweithgaredd yn berthnasol i oedran a gallu'r plant.

Mae defnydd helaeth o gyfarpar, deunyddiau ac amrywiaeth o becynnau adeiladwaith. Gall hyn gynnwys gwn glud, siswrn, cyllell, morthwyl a chydrannau trydanol ynghyd a bwyd amrwd, gwydr, pren a ffibrau.

Defnyddir cryn ofal wrth addysgu'r pwnc. Gwneir ymdrech i gael goruchwyliaeth ddigonol wrth i blant ddefnyddio offer perthnasol.

Mae iechyd a diogelwch y disgyblion yn hanfodol bwysig a rhaid dilyn y canllawiau priodol wrth ddefnyddio rhai offer, deunyddiau a glud.

Hanes

Mae'r cwricwlwm hanes yn rhoi ymwybyddiaeth i'r plant o raddfa amser o'r oesoedd cynnar hyd y dydd presennol.

Bydd y disgyblion yn edrych sut oedd pobl yn byw trwy'r gwahanol gyfnodau o hanes a'r dylanwadau amrywiol a oedd yn effeithio ar eu bywydau.

Ym Mhlas Coch mae pwyslais ar Hanes Cymru gan gynnwys astudiaethau lleol.

Mae'r dysgu yn cynnwys trafod arteffactau, dogfennaeth a darluniau i wahaniaethu rhwng hen a newydd gan ddefnyddio deunyddiau cyfeirnod i ddethol, gwybodaeth berthnasol.

Rhan bwysig o ymholiad hanesyddol yw casglu tystiolaeth ynghyd a'r gallu i ddiddwytho gwybodaeth o safleoedd real ac arteffactau. Oherwydd hyn trefnir ymweliadau addysgol i safleoedd hanesyddol.

Yn gynnar iawn bydd y plant yn dysgu o'u profiadau a'u teulu cyfagos. Bydd dealltwriaeth sylfaenol o fywyd yn y gorffennol yn datblygu o chwedlau gwerin a storïau am enwogion.

Yn Y Cyfnod Sylfaen bydd y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth o'r ffyrdd mae'r gorffennol yn wahanol i'r presennol drwy astudio thema fel Cartrefi, Teganau, Teithio etc. Yn ogystal â hyn byddant yn astudio pobl a digwyddiadau lleol, cenedlaethol ac o wledydd eraill.

Y prif sgiliau sy'n cael ei datblygu yw ymwybyddiaeth o amser a'r gallu i drefnu digwyddiadau yn ogystal ag ennill gwybodaeth hanesyddol.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 byddwn yn adeiladu ar y wybodaeth, dealltwriaeth ar sgiliau a enillwyd yn Y Cyfnod Sylfaen. Bydd y plant yn cael cymorth i gael dealltwriaeth o'r cyfnodau a astudiwyd ynghyd ac ystyried newidiadau dros amser.

Daearyddiaeth

Credwn fod Daearyddiaeth yn ymwneud a symbylu diddordeb y disgyblion yn eu hamgylchoedd cyfagos ynghyd a meithrin parch a rhyfeddod harddwch byd o'u cwmpas.

Mae Daearyddiaeth yn helpu plant i ddeall a pharchu eu hamgylchfyd a'i berthynas i'r byd eang drwy ddysgu am lefydd a rhyngweithiad pobl o fewn y llefydd hyn.

Mae Daearyddiaeth yn darparu modd o ymholi, arsylwi, fforio a disgrifiadau o nodweddion y Ddaear, y gwahanol gymdogaethau a'r dylanwadau sy'n eu creu drwy astudio'r tywydd a'i effeithiau, swyddi, teithio, gweithgareddau economaidd a nodweddion tirwedd mewn amrediad o lefydd.

Drwy astudio Daearyddiaeth gall plant ddechrau ymateb i gwestiynau fel:

- Sut le ydyw?
- Beth sydd wedi ei wneud fel hyn?
- Sut mae'n cymharu â llefydd eraill?
- Sut mae'n wahanol, sut mae'n debyg?
- Sut mae'r lle hwn yn newid, beth all ddigwydd yn y dyfodol?

Bydd y plant yn cael cyfle i:

- Datblygu a chymhwyso amrediad eang o sgiliau a geirfa ddaearyddol briodol.
- Arsylwi, disgrifio a chymharu llefydd a'u nodweddion.
- Cynnig eglurhad am yr hyn a arsylwyd gan drafod y cysylltiadau daearyddol.
- Cofnodi eu syniadau yn rhesymegol.
- Dod yn ymwybodol o lefydd tu hwnt i'w hardal leol.
- Archwilio ac adnabod patrymau daearyddol newidiol a chyferbyniol ynghyd a beth yw eu perthynas a'r broses ddynol a ffisegol.

Mae Daearyddiaeth yn y ddau Gyfnod Allweddol wedi cael ei selio ar waith maes, gweithgareddau dosbarth a gall ymwneud ac ymweliadau addysgol os yn briodol.

Celf

Gall Celf fod yn fodd hyfryd i ddatblygu meddwl gweledol a chreadigol ac fel ysgol credwn fod celf yn rhywbeth i'w fwynhau a chyfle i hunanfyngiant.

Mae Celf yn meithrin yr ymdeimlad o bwrpas, gorchest a llwyddiant ac ar yr un pryd yn hybu hunan-barch.

Bydd plant yn y ddau Gyfnod Allweddol yn cael cyfle i archwilio Celf drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, offer, ddulliau a thechnegau gan ddefnyddio eu profiad, cof a'r dychymyg i fynegi eu hunain.

Bydd y disgyblion yn cael eu haddysgu fel unigolion, grŵp neu ddosbarth cyfan.

Anogir hwy i drafod eu gwaith ag eraill ac ymchwilio i hanes celf, arlunwyr a gweithwyr celf.

Mae tair prif ran i'r cwricwlwm Celf:

deall, gwneud ac ymchwilio.

Drwy Gelf gall plant arbrofi, fforio a datblygu eu hymwybyddiaeth greadigol ac estheteg. Gall y plant gynhyrchu gwaith dau neu dri dimensiwn drwy ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau gan gynnwys tynnu llun, printio, collage, tecstilau neu glai.

Anogir plant i fod yn ofalus a dangos parch tuag at eu gwaith a gwneud ei gorau bob amser. Gwerthfawrogir pob darn o gelf a wna'r plant a byddwn yn arddangos enghreifftiau o'u gwaith o amgylch yr ysgol.

Mae gwaith Celf y plant yn bwysig i greu awyrgylch dysgu diddorol o fewn y dosbarth ac mae arddangosfeydd yn darparu modd i arddangos gwaith mewn meysydd eraill.

Cerdd

Bydd yr ysgol yn cynnig amrediad eang o weithgareddau cerddorol.

Yn y ddau Gyfnod Allweddol bydd y disgyblion yn cael cyfle i: Berfformio, Cyfansoddi a Gwerthuso.

Bydd cysyniadau cerddorol yn cael ei haddysgu o fewn gweithgareddau ble mae'r plant yn cael eu hannog i fforio, arbrofi a chreu cerddoriaeth eu hunain.

Mae'r cyfleoedd hyn yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r elfennau cerddorol: traw, parhad, cyflymdra, ansawdd, gwead, dynameg, adeiladed a distawrwydd.

Anogir plant i berfformion i eraill o fewn y dosbarth, yn y gwasanaethau ac mewn amrywiol gyngherddau ac eisteddfodau.

Bydd rhai plant yn cael cyfle i ddysgu chwarae offerynnau cerddorol, corned, ffidil, soddgrwth, telyn, clarined neu'r fflwiwt ac yn derbyn gwersi gan athrawon peripatetig sy'n ymweld ar ysgol yn wythnosol. Ar hyn o bryd nid yw'r ysgol yn codi tal am y gwersi hyn.

Am ychwaneg o wybodaeth am y gwersi peripatetig dylid cysylltu â'r swyddfa.

Addysg Gorfforol

Mae Addysg Gorfforol yn rhan bwysig o'r cwricwlwm ysgol. Mae'n defnyddio symudiad fel modd i ddysgu a mynegiant sy'n galluogi plant i ddatblygu yn gorfforol a chreadigol.

Mae'n cyfrannu tuag at addysg plant ifanc drwy hybu gweithgareddau corfforol a ffordd o fyw iachus.

Mae plant yn cael cyfle a'u hannog i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon.

Yn Y Cyfnod Sylfaen, mae'r plant yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, dawns a gymnasteg.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 mae'r plant yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, dawns, gymnasteg ynghyd a gweithgareddau awyr agored, nofio ac athletau.

Mae Addysg Gorfforol yn digwydd yn y neuadd, ar y buarth neu ar gae'r ysgol lle bydd cymhwysedd corfforol a chydsymud yn cael ei ddatblygu. Bydd raid i bob disgybl newid i wisg briodol ar gyfer Addysg Gorfforol a dylid tynnu ffwrdd unrhyw glustdlysau neu emwaith rhag ofn damwain.

Defnyddir y neuadd ar gyfer gweithgareddau llawr, dawns, drama a gymnasteg lle bydd y plant yn cael cyfle i weithio gydag offer mawr a bach. Mae'r cae yn cael ei ddefnyddio gogyfer a rownderi, pêl droed, criced, athletau a hoci tra ar y buarth datblygir sgiliau pêl, pêl rwyd a thenis.

Datblygir y sgiliau sylfaenol o fewn grwpiau bach cyn symud ymlaen i gemau tîm. Byddwn yn trefnu gemau tîm rhwng ysgolion cyfagos.

Ym Mhlas Coch cynigir gwersi nofio i Flwyddyn 4 Tymor yr Hydref, Blwyddyn 5 Tymor y Gwanwyn a Blwyddyn 3 a 6 Tymor yr Haf (½ tymor yr un).

Yng Nghyfnod Allweddol 2 caiff y plant gyfle i fynychu Gwersyll yr Urdd, Glanllyn ger Y Bala, lle maent yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau awyr agored fel canwio, dringo, cyfeiriannu a cherdded mynyddoedd. Mae'r cwrs hwn yn hynod bleserus i'r plant a'r staff.

Rydym yn amcanu i hybu ffordd o fyw iachus drwy weithgareddau corfforol a chyflwyno'r plant i'r mwynhad a'r llwyddiant a ddaw i'w rhan wrth gymryd rhan mewn chwaraeon.

Addysg Grefyddol

Er nad yw Addysg Grefyddol yn elfen o'r Cwricwlwm Cenedlaethol mae'n rhan orfodol o gwricwlwm ysgol.

Mae'r cwricwlwm Addysg Grefyddol wedi ei selio ar Faes Llafur Cytunedig Wreccsam. Mae ein cynlluniau gwaith yn darparu addysg eang a moesol i'r plant sy'n eu galluogi i ddod yn ymwybodol o grefyddau'r byd gyda phwyslais ar bob agwedd o Gristnogaeth.

Byddwn yn annog y plant i ddatblygu eu hymwybyddiaeth hwy o brofiadau bywyd, a'r modd mae eu crefydd yn gwahaniaethu o'i gymharu â phobl eraill.

Yn y ddau Gyfnod Allweddol bydd gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y disgyblion o Gristnogaeth a chrefydd eraill yn cael ei ddatblygu gan sicrhau profiadau dilyniadol ac ystyrlon.

Bydd themâu Addysg Grefyddol yn ategu gwaith mewn sawl maes arall.

Bydd y plant yn archwilio crefydd wrth fynegi eu profiadau a'u teimladau hwy drwy drafodaeth, llenyddiaeth, storïau o amgylch y byd, drama, dawns, gweithdai, ysgrifennu, celf, cerdd, addoli a chanu gan arwain tuag at fel y mae eraill yn mynegi eu teimladau.

Drwy Addysg Grefyddol rydym yn amcanu i annog parch, goddefgarwch ac empathi tuag at gred ac arferion eraill.

Mae'n gwasanaethau yn ddi-enwadol ond yn aml byddant yn ymwneud a gwahanol agweddau o'r ffydd Gristnogol ynghyd a chredoau a materion moesol eraill.

Anogir plant i fod yn rhan o wasanaethau dosbarth. Bydd arweinwyr crefyddol lleol ac ymwelwyr yn cael ei gwahodd i arwain y gwasanaeth yn achlysurol. Bydd gwasanaethau i ddathlu gŵyl neu achlysur arbennig yn cael ei gynnal yn ôl y gofyn.

Rydym yn gobeithio y bydd pob plentyn yn cymryd rhan ymhob agwedd o fywyd ysgol ond os ydynt yn dymuno mae gan rieni'r hawl i dynnu allan eu plentyn o weithred o addoliad, hyfforddiant crefyddol neu elfen ohono. Os dyma yw eu dymuniad, yna dylai rhieni gysylltu gyda'r Pennaeth a bydd trefniadau eraill yn cael ei gwneud ar gyfer eu plentyn yn ystod cyfnodau o'r fath.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Mae amcanion Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn ymwneud a'r materion allweddol hynny sy'n paratoi'r plant i ddeall a gofalu am eu bywydau nawr, yn eu harddegau ac fel oedolion.

Rydym yn obeithiol bod ethos yr ysgol hon sy'n pwysleisio awyrgylch ofalgar ac ystyriol o gymorth i ddatblygu parch tuag at unigolion, gwerthfawrogi llwyddiant pawb ac yn annog ymagweddiad a fydd yn galluogi plant i wneud cyfraniad positif i'r gymuned a byw yn gytûn ag eraill.

Mae polisi a chynlluniau gwaith i'r ysgol gyfan wedi cael eu datblygu.

Amcan A.B.Ch. yw darparu cyfleoedd ychwanegol i blant ymestyn eu dealltwriaeth am eu cyrff a sut maent yn gweithio, hylendid personol, diet, sut i gadw yn iach, defnydd / camddefnydd o gyffuriau ac effaith ysmegu ac alcohol. Bydd y plant yn dod yn ymwybodol o ffordd o fyw nad yw'n iach, sut ellir ei wneud yn iach a'u cyfrifoldeb personol i gyflawni hyn.

Mae'n rhaglen bwyta'n iach yn gymorth yn y broses ond gofynnwn i'r holl oedolion ein helpu nid yn unig i addysgu'r plant ond hefyd ni ein hunain.

Caiff y plant gyfle i drafod materion sensitif yn ystod amser cylch a byddant yn gwrando, deall a dangos empathi tuag at eu cyfoedion. Bydd athrawon a staff cynorthwyol yn arwain y drafodaeth yn ofalus ac yn cynnig cyngor neu awgrymiad i unigolion neu ddsbarth cyfan.

Gall y pynciau trafod gynnwys profocio, bwlian, unigrwydd, gwahaniad, profedigaeth, cancr, ofnau, dibyniaeth, ysgariad, fandaliaeth, dwyn neu ddweud celwydd.

Yn ystod y flwyddyn bydd yr ysgol yn ymateb i anghenion eraill a byddwn yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol.

Gall hyn ymwneud a gweithgaredd nodedig neu ddiwrnod di-wisg gyda'r plant yn cyflwyno cyfraniad gwirfoddol.

Addysg Rhyw ac Addysg Cyffuriau

Byddwn yn hybu pob agwedd o iechyd a diogelwch ac yn addysgu pwysigrwydd o ffordd o fyw iach. Mae Addysg Rhyw ac Addysg Gyffuriau yn rhan naturiol o Addysg Personol a Chymdeithasol.

Addysg Rhyw

Yn yr ysgol hon gall Addysg Rhyw fod yn uniongyrchol neu yn bwnc sy'n codi'n naturiol o'r cwricwlwm, neu'n codi o gwestiwn gan blentyn.

Ar bob achlysur bydd yr athrawon dosbarth neu asiantaethau allanol yn delio gyda'r maes hwn yn sensitif a gofalus, gan ystyried y bywyd teuluol, perthynas gariadus, parch tuag at eraill a fframwaith moesol cymdeithas.

Mae Addysg Rhyw yn rhannol ran o'r fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol ac yn rhannol seiliedig ar anghenion y Cwricwlwm Cenedlaethol Gwyddoniaeth.

Cyflwynir y syniad o genhedlu i'r plant ac anogir hwy i ddefnyddio geirfa briodol ar gyfer gwahanol rannau o'r corff ac i barchu eu cyrff hwy ac eraill.

Bydd pob gwern yn ystyried oedran ac anghenion, ac fe'i trosglwyddir mewn modd priodol i anghenion a dealltwriaeth y disgyblion.

Bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn cael ei haddysgu am bwysigrwydd y bywyd teuluol a datblygiad personol gan sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gywir ar gyfer llencyndod ac yn ddiweddarach bywyd oedolion.

Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plentyn allan o wersi Addysg Rhyw.

Mae gan yr ysgol bolisi Addysg Rhyw sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethwyr.

Addysg Gyffuriau

Bydd Swyddog Cyswllt yr Heddlu yn rhoddi cymorth i'r ysgol a'r athrawon i drosglwyddo'r agwedd hon o'r cwricwlwm a bydd yn adlewyrchu anghenion yr ysgol mewn modd sensitif a perthnasol i oedran y plant.

Disgyblion Gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol

O bosib ar ryw gyfnod yn ystod eu bywyd bydd disgyblion angen cymorth ychwanegol gyda'i haddysg.

Rydym yn amcanu i roddi mynediad llawn i'r cwricwlwm i bob plentyn gan ganolbwyntio ar beth y maent yn gallu ei wneud yn hytrach na beth na allant ei wneud. Drwy wneud hyn byddwn yn gwella eu hunan barch ac ehangu eu hunan hyder i'w galluogi i gyflawni eu llawn botensial.

Byddwn yn gwneud ymdrech i adnabod y plant gydag anawsterau dysgu mor fuan â phosib oherwydd credwn fod adnabyddiaeth gynnar gyda darpariaeth addas yn hanfodol bwysig i unrhyw blentyn gydag anghenion addysgol arbennig.

Bydd yr ysgol yn dilyn y trothwy cenedlaethol ar gyfer adnabyddiaeth o anghenion addysg arbennig fel y nodwyd yn y Cod Ymarfer ar gyfer Addysg Anghenion Arbennig. Adnabuwyd y lefelau trothwy fel Pryder Ysgol, Gweithred gan yr Ysgol, Gweithred gan yr Ysgol a Mwy, a Datganiad o Anghenion Arbennig. Mae rhan o'r Cod yn gofyn i ni gofnodi enwau'r rhai hynny a adnabuwyd o fod angen cymorth. Mae'r Cofrestr Anghenion Arbennig yn gyfrinachol i'r rhai hynny sy'n darparu ar gyfer y plentyn.

Os yw plentyn yn profi anawsterau dysgu sy'n golygu eu bod angen cymorth ychwanegol byddwn yn cysylltu gyda'r rhieni cyn gynted â phosib i nodi ein pryderon. Bydd yr athro/athrawes ddosbarth, cyd-gordiwr anghenion arbennig a'r Pennaeth yn trafod unrhyw bryderon o fewn yr ysgol.

Bydd cyfathrebiad cyson rhwng yr ysgol a'r cartref oherwydd mae'n hanfodol bwysig bod ymglymiad y rhieni yn rhan allweddol o unrhyw raglen cefnogi.

Bydd cysylltiad cyson rhwng yr ysgol a'r Gwasanaethau Iaith a Lleferydd, Seicolegydd Addysgol ac unrhyw asiantaethau allanol perthnasol arall.

Bydd yr holl asiantaethau yn rhan o ddatblygiad a chynhaliad Cynllun Addysgol Unigol (C.A.U.) plentyn neu Gynllun Ymddygiad os mai dyna yw'r argymhelliad.

Gall disgyblion o fewn y dosbarthiadau gael cymorth gan Gymhorthydd Dosbarth os yw eu Datganiad yn nodi hyn.

Plant y gofelir amdanynt

Bydd yr ysgol yn rhoi pob cymorth posib i blant y gofelir amdanynt (Looked After Children). Mae gan AALI Wrecsam drefniadau ar gyfer sicrhau fod y plant hyn yn cael eu derbyn i ysgolion (gweler llawlyfr derbyniadau i rieni). Byddwn yn delio efo pob plentyn yn ôl eu gofynion personol gan sicrhau fod eu hanghenion addysgol, cymdeithasol a bugeiliol yn cael y sylw priodol. Y person sy'n gyfrifol am blant y gofelir amdanynt ym Mhlas Coch yw Mrs Cheryl Vaughan ac yn ei habsenoldeb, Mr Osian Jones.

Y Cyfnod Sylfaen

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys y Dosbarthiadau Meithrin, Derbyn Blwyddyn 1, Blwyddyn 2. Yn y blynyddoedd yma bydd y plant yn dilyn "Fframwaith y Cyfnod Sylfaen".

Mae'r cwricwlwm Cyfnod Sylfaen yn sylfaenol ac yn ddatblygiadol yn y modd mae'n paratoi plant i fwynhau dysgu. Mae'n dilyn rhaglen o weithgareddau a gynlluniwyd yn ofalus ac yn cael ei grwpio dan y penawdau canlynol:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol
- Iaith a Llythrennedd
- Mathemateg
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol

Bydd addysg y disgyblion wedi ei selio ar chwarae strwythuredig a fydd yn cwmpasu gofynion y Canlyniadau Dymunol.

Asesu, Cadw Record ac Adroddiadau

Mae gan yr ysgol gyd-gordiwr asesu a pholisi sy'n rhoddi fframwaith clir i'r broses o asesu, cofnodi ac adrodd yn ôl.

Asesu

Credwn fod asesu yn rhan annatod o'r broses addysgol ac yn yr ysgol hon ei bwrpas fydd cefnogi'r plentyn a'r athro wrth werthuso effaith y ddarpariaeth o brofiadau dysgu.

Mae asesu yn darparu modd o gasglu gwybodaeth am gynnydd plentyn, ac adlewyrchu'r ardaloedd fydd angen mwy o sylw. Defnyddir amrywiaeth o dulliau asesu sy'n galluogi'r athrawon i addasu eu dysgu i gwrdd ag anghenion y dosbarth cyfan.

Mae athrawon dosbarth yn asesu eu disgyblion yn ddyddiol gan ddefnyddio dulliau anffurfiol wrth i'r plant gyflawni gwahanol dasgau yn ystod y dydd.

Yn ychwanegol i hyn yn achlysurol defnyddir profion mwy ffurfiol.

Yn y Blynyddoedd Cynnar asesir y disgyblion yn unol â gofynion yr Aseiad Sail sy'n darparu gwybodaeth i'r athrawon am ddealltwriaeth y plentyn o sgiliau ieithyddol, rhifedd a sgiliau personol a chymdeithasol.

Bydd disgyblion Blwyddyn 2 a 6 yn rhan o asesiad manwl diwedd Cyfnod Allweddol. Bydd eu cyrhaeddiad mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn cael ei gofnodi a'i werthuso mewn perthynas â meini prawf y Cwricwlwm Cenedlaethol a chyflwynir lefel perfformiad iddynt ym mhob un o'r pynciau craidd.

Mae canlyniadau asesiad yr athrawon yr ysgol hon yn y Cyfnod Sylfaen a Cyfnod Allweddol 2 yn gynwysedig yn y llawlyfr hwn.

Gwaith Cartref

Bydd gwaith cartref y disgyblion yn cefnogi'r hyn a wnaethpwyd yn y dosbarth.

Bydd y math a maint o waith cartref yn amrywio o ddosbarth i ddosbarth ond yn cynyddu fel mae'r plentyn yn symud drwy'r ysgol.

A fyddech cystal ag annog eich plentyn i ddatblygu ymagwedd bositif tuag at waith cartref drwy osod amser gartref gogyfer a chwblhau'r tasgau.

Anogir plant i ddarllen yn ddyddiol. O'r oedran cynharaf byddant yn dod a llyfr darllen gartref a gofynnwn i chwi gymryd amser i wrando arnynt yn darllen.

Treuliwch amser yn helpu eich plentyn i ddysgu sgiliau bywyd fel darllen pethau o'u cwmpas e.e. arwyddion ffyrdd, labeli etc yngyd ac ysgrifennu llythyr, stori, nodiadau rhestr neu gyfarwyddo hwy a mathemateg bob dydd.

Gwerthfawrogwn gymorth y rhieni i helpu eu plant gyda dysgu sillafu a thablau llusoi ac yn sicr mae effaith hyn i'w weld yn glir yn eu gwaith yn yr ysgol.

Gweithgareddau Chwaraeon

Yn ystod eu hamser ym Mhlas Coch, bwriadwn roi pob cyfle posib i bob plentyn ddatblygu mewn gwahanol chwaraeon. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau fod dwy awr o wersi Addysg Gorfforol yn cael eu cynnig yn wythnosol. I'r perwyl hyn, rydym yn gwneud defnydd o'r ganolfan tenis lleol, pwll nofio Gwyn Evans yng Ngwersyllt a Canolfan Gymnasteg Queensway. Hefyd, cynigir amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol, rhai yn cael eu rhedeg gan staff yr ysgol a rhan gan gwmnïau o du allan i'r ysgol. Byddwn yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau a thwrnamentiau chwaraeon e.e. cystadlaethau'r Urdd.

PWYSIG

1. **Cwricwlwm Newydd** - Ym Medi 2022, bydd cwricwlwm newydd yn dod yn statudol i holl ysgolion Cymru. Bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei gyhoeddi yn Ionawr 2020. Mae'r ysgol yn y broses o arbrofi, cynllunio a datblygu y cwricwlwm newydd yn barod ar gyfer Medi 2022. Bydd y wybodaeth uchod yn newid yn raddol dros y cyfnod nesaf hyd at Fedi 2022.
2. **COD ADY Newydd** – Ym Medi 2021, bydd Cod ADY newydd yn dod yn statudol yn holl ysgolion Cymru. Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer y cod newydd. Bydd y wybodaeth uchod am ADY yn cael ei ddiweddarau fel bo'r angen erbyn i'r cod newydd ddod yn weithredol.

Cysylltwch efo'r ysgol os am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r ddwy agwedd uchod.

Mae mwy o fanylion am y Cwricwlwm newydd isod.

Cwricwlwm newydd i Gymru

'Cenhadaeth ein cenedl yng Nghymru yw codi safonau, gwella cyrhaeddiad ein plant a sicrhau bod gennym system addysg y gall y genedl fod yn falch ohoni ac y gall y cyhoedd hyderu ynddi.'

Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg

Bydd y pedwar diben wrth galon y cwricwlwm.

Mae'r rhain yn cefnogi'r cwricwlwm i annog plant a phobl ifanc i fod yn:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog
- cyfranwyr mentrus, creadigol
- dinasyddion moesegol, gwybodus
- unigolion iach, hyderus

Bydd y cwricwlwm newydd yn 'gynhwysol, eang, cytbwys a heriol'.

Bydd iddo chwe Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer plant 3-16 oed:

- Celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Dyniaethau
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg

Mae 'profiadau cyfoethog' yn hanfodol ar gyfer dysgu dwys.

Bydd yn bwysig i feddwl am yr ystod o brofiadau sydd eisoes ar gael i ddysgwyr ym mhob cymuned ysgol; ystyried sut y gellir eu cymhwyso orau, adeiladu arnynt a'u gwella; a pha brofiadau newydd y gellir eu cynnig i gefnogi'r pedwar diben. Mae hyrwyddo profiadau dysgwyr yn rhan annatod o ddysgu ond hefyd yn agwedd bwysig wrth godi dyheadau.

Yn ei hanfod, mae'r Cynnig Disgyblion yn ymwneud â dod o hyd i ffyrdd

llwyddiannus o danio diddordebau, ysgogi angerdd a hyder cynyddol yn ein plant a'n pobl ifanc.

Mae'r cwricwlwm hwn yn ymwneud â dod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol o gyflwyno'r cwricwlwm, cyfathrebu disgygliadau uchel, codi dyheadau ac uchelgeisiau unigolyn i lwyddo ym mhopeth y maent yn dewis ei wneud. Mae'n gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu ehangder o gyfleoedd a gweithgareddau sy'n ehangu gorwelion o fewn a thu hwnt i amgylchedd dysgu traddodiadol yr ystafell ddosbarth.

Bydd sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael eu hymgorffori mewn ffordd ystyrlon ym mhob ysgol.

Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ar gyfer yr holl ymarferwyr. Bydd y ffocws yn parhau i fod ar lythrennedd a rhifedd fel rhagofyniad hanfodol ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Bydd yr iaith Gymraeg yn parhau i fod yn elfen orfodol o'r cwricwlwm.

Rhieni a gofalwyr

Cyfathrebu Gyda'r ysgol

Ystyriwn addysg fel partneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol ac oherwydd hynny gwerthfawrogn gefnogaeth y rhieni a rhown bwyslais mawr ar gyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref.

Mae cyfathrebu da yn elfen bwysig o ysgol effeithiol.

Os bydd angen mae'r **athrawon** ar gael i drafod gyda'r unrhyw broblem gyda'r rhieni. Gall dechrau'r dydd fod yn brysur iawn felly byddai yn haws pe bai rhieni yn gwneud trefniant i'w gweld ar ddiwedd y dydd.

Os ydych eisiau gweld y **Pennaeth** i ymdrin â mater sydd ddim yn hanfodol bwysig hwyrach bydd raid gwneud apwyntiad. Byddwn yn ymdrin â materion pwysig ar unwaith.

Byddwn yn rhoddi gwybodaeth i chi am **gynnydd eich plentyn** ac os oes unrhyw bryder byddwn yn cysylltu ar unwaith.

Bydd **nosweithiau rhieni** yn cael eu cynnal yn ystod y ddau dymor cyntaf ac yna yn y trydydd tymor ceir **adroddiad ysgrifenedig**.

Bydd safle gwe, app, Facebook a Trydar yr ysgol yn cael eu diweddarau yn gyson yn rhoi gwybodaeth i chwi am unrhyw ddigwyddiadau neu ddatblygiadau.

Yn achlysurol bydd rhiant yn ein hysbysu o **lau pen**. Pan fydd hyn yn digwydd byddwn yn cysylltu â holl rieni'r dosbarth trwy **lythyr safonol** yn gofyn iddynt wirio gwallt eu plant ac os ydych chi yn darganfod llau pen gofynnwn i chwi weinyddu'r driniaeth briodol. **Ni fydd gwybodaeth am enw'r plentyn yn cael ei roddi.**

Yn flynyddol bydd y Corff Llywodraethwyr yn cyhoeddi eu **Hadroddiad Blynyddol** un a fydd yn amlinellu cynnydd yr ysgol. Mae gwahoddiad i bob rhiant fynychu'r cyfarfod blynyddol i drafod cynnwys yr adroddiad.

Mae tri aelod o'r Corff Llywodraethwyr yn **Rhiant Lywodraethwyr** a gellir trafod materion cyffredinol gyda hwy.

Disgwylwn i rieni gysylltu efo'r ysgol, gan ddilyn y drefn uchod, os oes unrhyw gonsyrn ganddynt. Mae gan yr ysgol broses gwyno ffurfiol sy'n cael eu rhannu efo rhieni yn y pecyn a ddsbarthir pan mae plant yn cychwyn yr ysgol.

Gofynir i rieni ddilyn yr uchod os oes consyrn / cwynion a nid defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o gwyno am yr ysgol / staff / digwyddiadau. Mae gan yr ysgol weithdrefnau i ddelio efo defnydd anaddas o gyfryngau cymdeithasol gan rieni a gofalwyr.

Gofynnwn hefyd i rieni gysylltu ar ysgol i nodi os oes rhywbeth wedi digwydd gartref sy'n debygol o effeithio ar eu plentyn yn yr ysgol. Caiff unrhyw wybodaeth ei drin yn gyfrinachol a rhennir ef gyda staff perthnasol yn unig.

Ein hamcan yw cael perthynas gartref ysgol lwyddiannus trwy gydweithrediad a dealltwriaeth.

Presenoldeb, Absenoldeb a Salwch

Mae gan yr ysgol bolisi presenoldeb cynhwysfawr sy'n egluro am bwysigrwydd a gweithdrefnau presenoldeb. Mae'r polisi wedi ei seilio ar un CBSW ac ar gael i'w weld ar safle gwe yr ysgol. Anogwn chi i ddarllen hwn.

Gofynnwn i bawb sicrhau bod eu plant yn yr ysgol yn brydlon oherwydd bydd unrhyw un sy'n cyrraedd yn hwyr yn cael ei gofnodi ar y gofrestr fel absenoldeb diawdurdod.

Mae absenoldeb awdurdodedig yn cynnwys absenoldebau sy'n ymwneud a salwch, meddygol, deintydd, profedigaeth neu unrhyw amgylchiadau teuluol yn cynnwys gwyliau. Mae pob absenoldeb arall yn absenoldeb diawdurdod ac mae'n angenrheidiol eu bod yn cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad blynyddol, Llawlyfr Ysgol ac yn Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethwyr i Rieni.

Presenoldeb ysgol gyfan (2019 - 20)	95.7%
Absenoldeb awdurdodedig	(i'w gadarnhau)
Absenoldeb diawdurdod	(i'w gadarnhau)

Gofynnwn i rieni geisio trefnu eu gwyliau yn ystod gwyliau ysgol. Os nad yw hyn yn bosibl, gellir cael ffurflen wyliau o swyddfa'r ysgol neu oddi ar safle gwe'r ysgol. Gall y Pennaeth roddi'r hawl i blentyn i gael **deg** diwrnod o wyliau yn ystod tymor ysgol o fewn y flwyddyn academiaidd. **Mae gan y pennaeth yr hawl i wrthod rhoi'r hawl yma a felly byddai'r absenoldeb yn cael ei nodi fel un diawdurdod.** Bydd y pennaeth yn ystyried presenoldeb y disgybl ac unrhyw faterion perthnasol yn ogystal. Bydd unrhyw wyliau sy'n fwy na deg diwrnod yn cael ei gofnodi fel un diawdurdod os nad yw'r pennaeth wedi cymeradwyo hyn o dan amgylchiadau arbennig.

Mae'n rhaid i ni gofnodi a disgrifio unrhyw absenoldeb ymysg y disgyblion. A fydddech cystal â chysylltu â'r ysgol y bore cyntaf (gan ddefnyddio'r system ffon awtomatig) os yw eich plentyn yn mynd i fod yn absennol fel ein bod yn gwybod y rheswm pam nad yw yn yr ysgol. Os nad ydy wedi derbyn galwad / neges erbyn 9:30am, byddwn yn cysylltu i weld pam nad yw'r plentyn yn yr

ysgol. Ers Medi 2014, mae gan yr AALI yr hawl i roi cosb ariannol benodol os oes yna absenoldeb diawdurdod o fwy na phump diwrnod mewn tymor. Byddwn yn cydweithio efo'r Gweithiwr Cymdeithasol Addysg i sicrhau prydlondeb a phresenoldeb.

Os yw eich plentyn yn sâl neu'n cael damwain yn yr ysgol byddwn yn cysylltu â'r rhieni. Oherwydd hyn mae'n bwysig bod ganom rif ffôn brys i gysylltu â chwi. Yn ychwanegol i hyn bydd raid i rieni gwblhau ffurflen feddygol a gwybodaeth yn flynyddol.

Dylid cadw plant sy'n arddangos symptomau salwch gartref. Nid yw'n ddoeth i'w hanfon yn ôl i'r ysgol yn rhy gynnar ar ôl iddynt fod yn sâl. Os yw'r salwch yn heintus dylid cysylltu â'r ysgol. Os yw plentyn yn cael triniaeth feddygol sy'n debygol o amharu ar ei berfformiad dylid cysylltu â'r ysgol i nodi hyn.

Os oes angen gweinyddu meddyginiaethau yn ystod y dydd ar blentyn mae gan yr ysgol bolisi gweinyddu meddyginiaeth a chan ddilyn hwnnw, gall staff weinyddu meddyginiaeth **cyn belled fod rhieni wedi cwblhau'r ffurflen ganiatad bwrpasol ymlaen llaw.**

Clefyd Heintus, Afiechyd Croen a Mân Anhwylderau

<i>Clefyd</i>	<i>Cyfnod Heintus</i>	<i>Cyfnod Gwahardd a argymhellir</i>
Brech yr leir	11 – 21 diwrnod	6 diwrnod
Difftheria	2 – 5	Hyd i'r meddyg roddi caniatâd
Y Frech Goch (Rubella)	14 – 21	7 diwrnod
Twymyn Chwarennol	33 – 49	Hyd i'r meddyg roddi caniatâd
Hepatitis A	15 – 50	7 diwrnod
Impetigo		Hyd cychwyn y driniaeth
Y Frech Goch	10 – 15	7 diwrnod
Llid yr Ymennydd	2 - 10	Hyd i'r meddyg roddi caniatâd
Ciwy'r Pennau	12 – 21	Hyd i'r meddyg roddi caniatâd
Llau Pen		Hyd cychwyn y driniaeth
Y Crafu		Hyd cychwyn y driniaeth
Twymyn Goch	2 – 5	Hyd i'r meddyg roddi caniatâd
Yr Eryrod		7 diwrnod

Tiwberciwlosis	4 – 6 wythnos	Hyd datganiad o ddi-heintus
-----------------------	----------------------	------------------------------------

Mae'r wybodaeth uchod yn cael ei ddiweddarau'n gyson ac ar gael o'r ysgol.

Gweithiwr Cymdeithasol Addysgol

Mae Gweithiwr Cymdeithasol Addysgol yn cael ei gyflogi gan yr Awdurdod Addysg ac maent yn gweithredu fel cyswllt rhwng yr ysgol, cartref, plentyn a'r Awdurdod Addysg.

Byddant yn cynnig cefnogaeth, eglurhad neu gyngor ar wahanol faterion a allai amharu ar bresenoldeb neu fwynhad plentyn yn yr ysgol.

Mae'r Gweithiwr Cymdeithasol Addysgol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i fonitro'r presenoldeb ac os oes patrwm i absenoldeb neu absenoldeb rheolaidd bydd cysylltiad yn cael ei wneud â'r cartref.

Byddant yn trafod materion fel cyrraedd yn hwyr, absenoldeb diawdurdod a rhesymau dros absenoldebau awdurdodedig gyda'r Pennaeth.

Byddant hefyd yn trafod targedau gwella presenoldeb gyda'r Pennaeth.

Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol Addysgol yn gwrando ar unrhyw bryder sydd gan yr ysgol am les disgybl neu ddisgyblion ac os oes angen byddant yn ymweld â'r cartref.

Ymweliadau Addysgol a Polisi Codi Tâl ai peidio

Ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn addysgol bydd ymweliadau addysgol yn cael eu trefnu a bydd perfformiadau addysgol yn ymweld ar ysgol i addysgu a difyrru'r plant.

Yn aml bydd ymweliadau neu berfformiadau o'r fath yn berthnasol i grŵp oedran arbennig gyda'r bwriad o atgyfnerthu thema neu bwnc o fewn y dosbarth. Mae ymweliadau addysgol yn ehangu'r cwricwlwm ac yn rhoddi ystyr a phwrpas i'w hastudiaethau a thrwy hynny symbylu eu diddordebau a thanio eu dychymyg. Mae ymweliadau addysgol o gymorth i annog a datblygu sgiliau cymdeithasol ac adeiladu hunan barch ymysg unigolion. Credwn eu bod iddynt gyfraniad gwerthfawr i hybu dysgu gydol oes ymysg ein disgyblion.

Oherwydd y nifer o ddisgyblion ni all yr ysgol dalu am yr ymweliadau addysgol felly byddwn yn gofyn am gyfraniad gwirfoddol gan y rhieni.

Ni fydd plentyn yn cael ei atal rhag mynd ar ymweliad addysgol oherwydd nad yw'n gallu talu. Er hynny mae'n rhaid i'r cyfraniadau gwirfoddol fod yn ddigonol i sicrhau i'r ymweliad ddigwydd.

Mae'n bwysig nodi bod deddfwriaeth y Llywodraeth yn datgan na ddylai ymweliad ddigwydd os nad yw pob plentyn yn gallu mynd oherwydd bod rhai

yn methu talu. Os oes unrhyw riant yn cael trafferth gyda chost ymweliad yna dylid trafod y broblem gyda'r Pennaeth. Gellir talu am unrhyw ymweliadau preswyl mewn rhandaliadau a gellir gwneud trefniadau cyffelyb gydag amgylchiadau eraill os oes angen.

Mae cost unrhyw ymweliad yn cynnwys teithio, trafndiaeth, mynediad ac yswiriant. Mae gwybodaeth am unrhyw ymweliad yn cael ei anfon i'r rhieni a bydd raid cwblhau'r ffurflen caniatâd ar ddechrau blwyddyn a fydd yn addas ar gyfer y mwyafrif o ymweliadau yn ystod y flwyddyn.

Mae gan yr ysgol asesiad risg ar gyfer ymweliadau a mae'r holl staff yn ymwybodol ohono. Yn ychwanegol, bydd gan y ganolfan yr ymwelir â hi asesiad risg yn ogystal.

Er bod gan yr Awdurdod Bolisi Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus mae gan yr ysgol Bolisi Yswiriant ychwanegol ar gyfer ymweliadau addysgol.

Gyda phob ymweliad addysgol bydd yr ysgol yn sicrhau bod y gymhareb plentyn / athro yn ymateb i argymhellion yr Awdurdod a gydag ymweliadau'r plant ifanc bydd y gymhareb yn is. Rydym yn ddiolchgar o gymorth rhieni yn ystod ymweliadau addysgol i sicrhau'r gymhareb gywir.

Trefn Codi Cwyn

Os oes digwyddiad ble mae awgrymiad, ymholiad neu gŵyn yn ymwneud ar ysgol neu un o'i staff rydym yn eich annog i roddi gwybodaeth i ni for fuan a phosib. Mae'n anodd iawn i ni ymchwilio digwyddiad neu broblem a ddigwyddodd beth amser yn ôl.

Yn gyntaf trafodwch y broblem gydag athro / athrawes dosbarth eich plentyn unai ar ddechrau neu ddiwedd y diwrnod. Os nad ydych yn hapus gyda'r canlyniad neu gyda phryder mwy difrifol yna gwnewch apwyntiad i weld y Pennaeth. Wrth gwrs nid yw hyn yn golygu bod canlyniad derbyniol yn mynd i ddigwydd ar bob achlysur ond mae'n galluogi i chwi ar ysgol ddeall natur y broblem yn well.

Byddwn yn gwneud ein gorau i ddatrys unrhyw broblem ond os oes yw eich pryder yn parhau neu ddim yn hapus gydag ymateb yr athro / athrawes neu 'r Pennaeth yna dylid gwneud cynwys swyddogol drwy ddilyn y drefn a fanylir ym mholisi cwyno'r ysgol. Rhoddir crynodeb o'r drefn i rieni pan fydd plant yn cychwyn yn yr ysgol.

Cyllid ysgol

Cyllideb yr Ysgol

Mae gan yr ysgol drwy'r Corff Llywodraethwyr reolaeth dros yr holl gyllideb ysgol. Mae cyfran helaeth o gyllideb yr ysgol yn mynd i dalu cyflogau, cynnal yr adeilad, gwasanaethau angenrheidiol a biliau egni. Er mae'r Corff Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am lefelau gwariant yr Awdurdod fydd yn gwneud y taliadau.

Ceir gwybodaeth am y gyllideb yn Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethwyr i'r Rhieni.

Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei archwilio yn rheolaidd a bydd Corff Llywodraethwyr yn ymateb i unrhyw gyngor gan y cyfrifydd.

Cronfa Ysgol

Mae'r Gronfa Ysgol yn codi arian drwy:

- Gwerthiant lluniau.
- Gweithgareddau noddi.
- Raffl
- Rhoddion

Rydym yn casglu arian i'r Gronfa Ysgol drwy gyfraniadau gwirfoddol ymweliadau addysgol a chostau gwersi nofio a thenis. Bydd y costau hyn yn cael eu cadw i'r isafswm. Bydd y gronfa yn cael ei defnyddio i dalu costau'r holl ymweliadau neu weithgareddau. Mae'r Gronfa Ysgol yn cael ei harchwilio yn flynyddol.

Cytundeb Ysgol / Cartref

YSGOL PLAS COCH

CYTUNDEB CARTREF - YSGOL

Ysgol Plas Coch

Bydd yr ysgol yn ceisio :

- gofalu am hapusrwydd eich plentyn;
- sicrhau bod eich plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial fel aelod gwerthfawr o'r ysgol;
- darparu cyfleoedd i feithrin a chymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru;
- darparu cwricwlwm cytbwys a fydd yn cwrdd ag anghenion unigol eich plentyn;
- sicrhau safonau uchel mewn addysg ac ymddygiad drwy adeiladu perthynas dda a meithrin y syniad o gyfrifoldeb;
- eich hysbysu am faterion cyffredinol ac yn arbennig cynnydd eich plentyn;
- bod yn groesawgar a chynnig cyfleoedd i chwi ymwneud â bywyd yr ysgol.

Llofnod:_____

Y rhieni / gwarcheidwad

Byddaf / Byddwn i yn ceisio:

- sicrhau bod ein plentyn yn dod i'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon;
- hysbysu'r ysgol am unrhyw broblemau a all effeithio ar addysg ac ymddygiad y plentyn;
- cefnogi polisïau a chanllawiau ymddygiad yr ysgol;
- annog fy mhlentyn i siarad Cymraeg;
- cefnogi fy mhlentyn gyda'i waith cartref a chyfleoedd eraill i ddysgu gartref;
- mynychu nosweithiau rhieni i drafod cynnydd fy mhlentyn;
- dod i wybod am fywyd ysgol fy mhlentyn.

Llofnod: _____

Lles y Disgyblion

Iechyd a Diogelwch

Mae gan yr ysgol Bolisi Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr sy'n ymgeisio i ddarparu amgylchedd diogel i'r holl ddisgyblion, staff ac ymwelwyr.

Mae asesiad risg ysgol gyfan yn cael ei wneud yn flynyddol sy'n caniatáu i'r ysgol, llywodraethwyr, staff a'r Awdurdod ymateb i unrhyw bryderon.

Gall asesiadau risg ychwanegol yn cael eu cynnal ar gyfer materion penodol lle y gall risg fod yn berthnasol fel ymweliadau addysgol, gwyddoniaeth, technoleg, Addysg Gorfforol a chrefftau eraill.

Mae tir yr ysgol yn cael ei wirio yn ddyddiol gan y gofalwr a bydd unrhyw ddiffyg yn cael ei nodi i'r Pennaeth. Gwneir unrhyw atgyweirio mor fuan â phosib os yw cyllideb yn caniatáu.

Bydd ymarfer tân yn cael ei gynnal yn dymhorol a hynny heb rybudd i sicrhau bod y drefn gywir yn cael ei dilyn gan y staff a'r disgyblion. Byddwn yn ystyried yr amser a gymerwyd i wagio'r adeilad a nodi unrhyw broblemau.

Mae ganddom bolisi dim sbwriel o fewn yr ysgol ac ar y tiroedd ac ni chaniateir i neb ddod a chŵn a'r tir a buarth yr ysgol.

Ni chaniateir ysmegu o fewn yr adeilad nag ar y buarth neu dir yr ysgol a gofynnwn i bawb sy'n dod i'r ysgol i gydymffurfio a'r rheol.

Mae pob aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol tra bo tri o'r staff wedi derbyn hyfforddiant uwch. Mae llyfr damweiniau yn cael ei gadw.

Damweiniau Toiled a Newid Plant

Er mwyn cydymffurfio a gweithdrefnau Amddiffyn Plant bydd yr ysgol yn gweithredu ymarfer dda cyn belled ag y mae damweiniau toiled a newid dillad plant yn y cwestiwn.

Byddwn yn newid dillad plant os ydynt :

- Wedi gwlychu / baeddu yn dilyn cwmp.
- Wedi bod yn sâl.
- Wedi cael damwain toiled

Bydd y staff yn parchu preifatrwydd pob plentyn a'r bod achlysur ac yn annog annibyniaeth a hylendid da.

Pe bai plentyn wedi cael cwmp neu wedi bod yn sâl, nid oes raid newid y dillad isaf a bydd y mwyafrif o blant yn gallu newid eu dillad eu hunain gydag aelod o'r staff yn arolygu.

Pe bai unrhyw blentyn yn dioddef o unrhyw broblem feddygol gyda thystiolaeth wedi'i gyflwyno i'r ysgol gan eich meddyg yna gellir rhoi cynllun gofal yn ei le i gynorthwyo'r plentyn.

Toiledau

Mae yna nifer ddigonol o doiledau yn yr ysgol sy'n cyfarfod a'r gofynion a osodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r toiledau yn cael ei glanhau ar ddiwedd bob diwrnod. Bydd aelod o staff yn eu gwirio yn ystod y dydd hefyd i sicrhau nad oes unrhyw broblem am y toiledau wedi codi y mae angen delio a hi yn syth.

Diogelwch Ysgol

Mae holl aelodau o'r staff yn wylidwrus iawn er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i'r holl blant. Er ein bod yn meithrin polisi drws agored mae'n rhaid i ni fabwysiadu rhai mesurau i sicrhau diogelwch yr holl ddisgyblion.

Mae'n rhaid i bob ymwelydd alw yn y swyddfa. Mae hyn yn ein galluogi i gwrdd â rheolau lechyd a Diogelwch a sicrhau'r gofal haeddiannol i ddisgyblion yr ysgol.

Mae'r polisi lechyd a Diogelwch yn rhoddi cyngor ar oruchwylio plant yn benodol ar ddechrau a diwedd diwrnod, neu amser chwarae a chinio.

Mae nifer o gamau wedi'i mabwysiadu dros y blynyddoedd diwethaf i wella diogelwch o gwmpas yr ysgol gan gynnwys ffensys a chloeon ar y giatiau.

Mae bysellbad ar ddrws prif fynedfa'r ysgol tra bo pob drws arall ar glo yn ystod gwersi.

Bydd y staff yn mynd a ffôn symudol ar unrhyw ymweliad addysgol.

Mae'n ofynnol i'r ysgol gael gwybod os oes rhywun gwahanol yn casglu plentyn o'r ysgol ar ddiwedd dydd. Ni chaiff plentyn adael yr ysgol gyda rhywun gwahanol i'r arfer os nad oes gwybodaeth neges ffôn neu nodyn wedi cael ei roi i'r ysgol.

Mae'n ddyletswydd ar y gwarcheidwad cyfreithiol i ddarparu'r ysgol gyda'r ddogfennaeth swyddogol angenrheidiol i atal rhiant neu oedolyn arall rhag casglu plentyn o'r ysgol.

A fydddech cystal â sylweddoli bod plant sy'n chwarae ar fuarth yr ysgol cyn neu ar ôl amser agor a chau'r ysgol yn gwneud hynny heb oruchwylwyr ac yn gyfrifoldeb rhieni neu warchgeidwaid.

Diogelu Plant

Mae cyfarwyddyd yr Adran Addysg a Chyflogaeth a Chynulliad Cymru yn nodi yn glir bod gan ysgolion swyddogaeth bwysig i chwarae wrth amddiffyn plant rhag camdriniaeth. Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan Bolisi Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal Wrecsam sy'n amlinellu'r drefn y dylai staff eu dilyn.

Fel ysgol ofalgar mae ganom gyfrifoldeb uniongyrchol am ein plant a'n prif bryder yw eu lles. **Mae pob plentyn yn cyfrif.**

Yn unol â'r ddeddf mae'n angenrheidiol i bob ysgol gael Cyd-gordiwr Amddiffyn Plant. Ym Mhlas Coch y Pennaeth yw'r Cyd-gordiwr ar y cyd efo'r Cydlynnydd ADY / Ymddygiad.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar yr ysgol i gysylltu ag asiantaethau eraill (e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol) pan fydd unrhyw bryder am amddiffyn plant. Mae'n ofynnol i'r Corff Llywodraethwyr i sicrhau bod system mewn lle ar gyfer amddiffyn plant rhag camdriniaeth.

Mae unrhyw fater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn cael ei ymdrin yn hollol gyfrinachol.

Mae unrhyw gyfeiriad, nodiadau neu arsylwad cofnodedig a wnaed mewn perthynas â materion sensitif amddiffyn plant yn rhydd o anghenion y ddeddf gwarchod data.

Cyfle Cyfartal

Credwn fod gan bob unigolyn yr hawl i gyfle cyfartal a bod yn rhydd o unrhyw ffurf o ddirnadaeth.

Adnabyddwn hawliau cydraddoldeb pob unigolyn yn cynnwys disgyblion a staff gwaeth beth fo'i rhyw, lliw, diwylliant, cenedl, gallu, anabledd, oedran neu ddaliadau crefyddol. Mae'r polisi hwn yn rhan hanfodol o holl fywyd yr ysgol. Mae'n cael ei adlewyrchu ym mhob un o'r polisiau eraill.

Prif amcanion ein polisi yw:

- Bod un o'r llywodraethwyr yn cael ei enwebu i fod a gofalaeth dros gyfle cyfartal.
- Bod un o'r athrawon (yn gweithio fel rhan o'r tîm) gyda gofalaeth am gyfle cyfartal.

- Sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i dderbyn y cwricwlwm cyfan yn cynnwys y sgiliau sylfaenol.
- Sicrhau bod grwpio o wahanol allu a rhyw o fewn y dosbarth.
- Sicrhau bod y buarth ar gael i bob plentyn.
- Sicrhau nad yw rhywogaeth yn amharu ar unrhyw weithgaredd.
- Sicrhau nad yw'r cwricwlwm cudd yn rhoddi negeseuon dirnadaeth i blant, e.e. a yw'r adnoddau yn rhoddi adlewyrchiad positif o ferched, diwylliant gwahanol, galluoedd gwahanol neu fodd o fyw gwahanol.
- Sicrhau bod y modd yr ydym yn ymdrin â disgyblaeth sef y Cynllun Amser Aur yr un fath i bawb.
- Sicrhau bod pob athro/athrawes waeth beth fyddai ei anabledd, cenedl neu dueddiadau rhywiol yn cael yr un cyfle i swyddi o fewn yr ysgol.
- Sicrhau bod holl staff yr ysgol yn ymwybodol o'r polisi cyfle cyfartal.
- Sicrhau bod cyfle cyfartal yn rhan o bob polisi arall.
- Sicrhau bod ethos cyfle cyfartal yr ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r ysgol uwchradd drwy drafodaeth rhwng y ddwy ysgol.

Cludiant Ysgol a Mynediad

Mae'r Awdurdod yn darparu cludiant rhad i bob plentyn o oedran ysgol orfodol sy'n byw dwy filltir neu fwy o'r ysgol briodol agosaf.

Dylid gwneud cais am gludiant rhad i'r Awdurdod. Gellir cael ffurflen o'r swyddfa neu ar drwy www.wrexham.gov.uk

Bydd y plant yn cael eu cwrdd o'r bws yn y bore a'u hebrwng i'r bws ar ddiwedd dydd gan aelod o'r staff.

Mae'n bwysig bod unrhyw blentyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn yn ymddwyn yn briodol er mwyn hyrwyddo eu diogelwch hwy ac eraill. Mae gan y cwmni bysiau'r hawl i wrthod cludiant i unrhyw un sy'n ymddwyn yn anaddas..

Mae mynediad i'r rhai hynny sy'n teithio mewn car drwy'r brif giât neu'r llwybr troed. Gofynnwn i chwi yrru gydag ystyriaeth wrth nesáu tuag at yr ysgol. Yn ystod oriau ysgol neu ar gychwyn neu ddiwedd y dydd **ni ddylai unrhyw riant barcio ei gar ar fuarth yr ysgol.** Ar bob achlysur dylid defnyddio'r man

parcio gyferbyn a chae'r ysgol. Os gwelwch yn dda peidiwch â pharcio ger y giataiu oherwydd bydd y bysiau yn cael trafferth i ddod mewn i'r buarth.

Mynediad i'r Anabl

Mae ramp yn arwain at y brif fynedfa ar gyfer y rhai hynny gydag anawsterau corfforol neu symudoledd. Mae toiledau anabl ar gael o fewn yr ysgol.

Cau Mewn Argyfwng a Threfniadau Tywydd Garw

Os oes tywydd garw yn bodoli sy'n gorfodi i'r ysgol gau byddwn yn diweddarau gwybodaeth berthnasol drwy safle gwe yr ysgol, ein tudalen Facebook, App yr ysgol a safle gwe Cyngor Wreccsam.

Ni fydd plentyn yn cael gadael yr ysgol hyd nes y cawn sicrwydd bod rhywun gartref i'w dderbyn.

Mynediad i'r Rhyngrwyd

Oherwydd anghenion statudol mae'n rhaid i ni ddosbarthu ffurflen ganiatâd i bob rhiant cyn y gall eu plentyn ddefnyddio'r Rhyngrwyd ac E-bost o fewn yr ysgol. Bydd y ffurflen o Fedi 2017 ymlaen yn nodi yr hyn sy'n ddisgwyliadwy o'r disgyblion mewn perthynas a defnydd diogel o'r We.

Os na chawn ganiatâd ni fydd eich plentyn yn cael defnyddio'r Rhyngrwyd ac E-bost i wneud gwahanol weithgareddau.

Rhaid i ni dderbyn y ffurflen ganiatâd wedi'i harwyddo cyn i'r gweithgareddau gymryd lle, ac os na chawn y ffurflen byddwn yn ystyried nad ydych eisiau i'ch plentyn gymryd rhan ac felly byddwn yn eithrio rhag gwneud gweithgareddau yn ystod gwerau briodol.

Hoffwn bwysleisio a'ch sicrhau na fydd plant yn cael mynediad i'r Rhyngrwyd heb oruchwyliaeth briodol.

CANLYNIADAU ASESIAU YSGOL GORFFENAF 2020

Ni aseswyd disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen a CA 2 yng Ngorffennaf 2020 o ganlyniad i'r pandemig, yn unol a gorchymyn Llywodraeth Cymru.